


GWASG PRIFYSGOL CYMRU

Y DEGAWDAU CYNNAR
(1922-1953)

LLION WIGLEY



ISBN 978-1-83772-017-0



9 781837 720170 >

Gwasg Prifysgol Cymru

Mae'r dudalen hon yn fwriadol wag

Gwasg Prifysgol Cymru
Y Degawdau Cynnar (1922–1953)

Llion Wigley



Gwasg Prifysgol Cymru
2022

Hawlfraint © Llion Wigley, 2022

Cedwir pob hawl. Ni cheir atgynhyrchu unrhyw ran o'r cyhoeddiad hwn na'i gadw mewn cyfundrefn adferadwy na'i drosglwyddo mewn unrhyw ddull na thrwy unrhyw gyfrwng electronig, mecanyddol, ffotogopïo, recordio, nac fel arall, heb ganiatâd ymlaen llaw gan Wasg Prifysgol Cymru, Cofrestrfa'r Brifysgol, Rhodfa'r Brenin Edward VII, Caerdydd CF10 3NS

www.gwasgprifysgolcymru.org

Mae cofnod catalogio'r gyfrol hon ar gael gan y Llyfrgell Brydeinig.

ISBN 978-1-83772-017-0

e-ISBN 978-1-83772-018-7

Datganwyd gan Llion Wigley ei hawl foesol i'w gydnabod yn awdur ar y gwaith hwn yn unol ag adrannau 77 a 78 Deddf Hawlfraint, Dyluniadau a Phatentau 1988.

Cysodwyd gan Eira Fenn Gaunt, Pentyrch, Cymru

Argraffwyd gan CPI Antony Rowe, Melksham, Y Deyrnas Gyfunol

*I Mam, Eryllt a Gwenllian, ac er cof annwyl
am Christine Fieodorczuk (1960–2021)*

Mae'r dudalen hon yn fwriadol wag

Rhagair yr Is-Ganghellor

Rwy'n falch iawn i gyflwyno'r cofnod hwn o ddegawdau cynnar Gwasg Prifysgol Cymru wrth ddathlu canmlwyddiant sefydliad mor hanfodol i'n cenedl.

Sefydlwyd y Wasg ym 1922 gan Brifysgol Cymru, a hynny i greu cartref o'r safon uchaf ar gyfer cyhoeddi ymchwil yn deillio o, ac yn ymwneud â, Chymru – sef yr hyn a elwir Astudiaethau Cymreig heddiw – yn ei dwy iaith genedlaethol, y Gymraeg a'r Saesneg. Ni fu'r cyfle hwn ar gael yn eang i ymchwilwyr, yn arbennig yn yr iaith Gymraeg, cyn sefydlu'r Wasg.

Crëwyd yr ased genedlaethol hon gan sylfaenwyr y Wasg i wasanaethu Cymru, ac i ledaenu ymchwil ledled y genedl a'r byd. O dan arweiniad ei chyfarwyddwr presennol, a gyda chefnogaeth Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant, mae'r Wasg yn parhau i gyflawni ei egwyddorion gwreiddiol heddiw.

Rwy'n ddiolchgar i Dr Llion Wigley, Uwch Olygydd Comisiynu y Wasg, am ei ymchwil manwl drwy'r archifau i greu cofnod o'r blynyddoedd cynnar, ac o'r ffactorau gwleidyddol ac addysgiadol a gyfrannodd at ei datblygiad cynnar.

Hoffwn ddiolch i gydweithwyr y presennol a'r gorffennol, i'r awduron ac i bawb sydd wedi cyfrannu at fri academiaidd rhyngwladol y Wasg heddiw. Wrth i ni ddathlu'r canmlwydd, a chan gydnabod dylanwad y Wasg ar Gymru ac ar ymchwil Gymreig yn ystod ei chanrif gyntaf, edrychwn ymlaen yn eiddgar at yr hyn a gaiff ei gyflawni yn ystod y ganrif nesaf.

Yr Athro Medwin Hughes, DL

Is-Ganghellor Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant

Mae'r dudalen hon yn fwriadol wag

Gwasg Prifysgol Cymru: Y Degawdau Cynnar (1922–1953)

Sefydlwyd Gwasg Prifysgol Cymru ganrif yn ôl ym 1922, yn rhannol er mwyn adeiladu pont rhwng y Brifysgol a'r cyhoedd yng Nghymru. Bwriad y llyfr hwn yw rhoi trosolwg o ddegawdau cynnar y Wasg, o'r blynyddoedd a arweiniodd at ei sefydlu hyd at ddechrau'r 1950au. Dyma gyfnod o ychydig dros chwarter canrif a welodd lwyddiant aruthrol ar ran y Bwrdd a'i rheolai a'i hawduron i ymestyn y ddarpariaeth o gyhoeddiadau academiaidd ac ysgolheigaidd yn y Gymraeg, a hefyd i ddod â nifer o glasuron llenyddol a hanesyddol y diwylliant Cymraeg o fewn gafael darllenwyr cyffredin. Defnyddir archifau'r Wasg fel sail ar gyfer y drafodaeth isod, gan gynnwys llyfrau cofnodion ac adroddiadau blynyddol Bwrdd y Wasg, sy'n rhoi darlun clir a manwl o'r modd y datblygodd ei waith rhwng y rhyfelodd byd yn arbennig. Mae sefydlu'r Wasg a'i blynyddoedd cynnar yn rhan bwysig hefyd o hanes diwylliannol Cymru yn hanner gyntaf yr ugeinfed ganrif, a cheisir amlygu natur a maint ei chyfraniad yn y drafodaeth isod.

Ymhlith y rhesymau dros sefydlu gwasg prifysgol Gymreig, roedd pump o brif amcanion. Y cyntaf oedd i adeiladu pont rhwng colegau Prifysgol Cymru a'r cyhoedd. Yr ail oedd er mwyn annog ymchwilwyr a darlithwyr y Brifysgol i gyhoeddi eu gwaith a chael llwyfan ar ei gyfer, a thrwy hynny i feithrin eu hyder a datblygu eu hysgolheictod. Cyhoeddi gweithiau llenyddol a hanesyddol arwyddocaol Cymraeg nad oedd ar gael yn gyffredinol cyn hynny oedd y trydydd o'r amcanion, megis hen lawysgrifau o'r Oesoedd Canol a fu mewn dwylo preifat am ganrifoedd. Byddai'r gweithiau hynny yn rhan o wireddu'r pedwerydd o'r amcanion, sef i ddarparu

adnoddau o safon i golegau'r brifysgol, dosbarthiadau allanol ac ysgolion. Yr olaf ac efallai'r pwysicaf o'r cymhellion a yrrodd sefydlu'r Wasg oedd cymryd cyhoeddi academiaidd allan o ddwylo masnachol yn unig, ac i'w safoni yn y broses.

Yn y cyfnod rhwng sefydlu Prifysgol Cymru'n ffurfiol ym 1893 a chyfarfod cyntaf Bwrdd y Wasg ym 1922, argraffwyd cyfres o gyfrolau ar ran Urdd Graddedigion y Brifysgol gan Jarvis & Foster, cyhoeddwr preifat ym Mangor. Roedd argraffiadau newydd o rai o brif weithiau'r traddodiad llenyddol Cymraeg ymhlith y llyfrau hynny, gan gynnwys dwy gyfrol o weithiau Morgan Llwyd (1899); y llyfr cyntaf i'w argraffu yn y Gymraeg, ym 1546, sef *Yny lhyovyr hwnn* (1902); *Drych y Prif Oesoedd* (1902) gan yr hanesydd Theophilus Evans; *Patrwm y Gwir Gristion* (1908); a llawysgrifau cynnar o gasgliadau Llansteffan a Pheniarth.¹ Yn dilyn argymhellion Comisiwn Haldane ym 1918, sefydlwyd y Bwrdd Gwybodau Celtaidd a Bwrdd y Wasg i gymryd awenau holl waith cyhoeddi Urdd y Graddedigion.

Dylid nodi nad Gwasg Prifysgol Cymru yn unig a gyhoeddai weithiau academiaidd yn y Gymraeg rhwng y rhyfeloedd byd, gan i gyhoeddwyr fel Hughes a'i Fab yn Wrecsam, Gwasg y Brython yn Lerpwl, a chwmni Foyle's yn Llundain ryddhau cyfrolau pwysig fel *Williams Pantycelyn* gan Saunders Lewis a llyfrau arloesol D. Miall Edwards ym maes diwinyddiaeth ac athroniaeth grefyddol.² Ond Gwasg Prifysgol Cymru oedd yr unig gyhoeddwr Cymreig a sefydlwyd yn benodol i wneud hyn fel rhan o genhadaeth genedlaethol y sefydliad yr oedd yn rhan ohono.

Adroddiad Haldane a Sefydlu'r Wasg

Cyn manylu ar y llyfrau a gyhoeddodd y Wasg yn ei blynnyddoedd cynnar, rhaid amlinellu sut y daeth i fodolaeth ar ddechrau'r 1920au a pham. Rhan o adfywiad cenedlaethol sydd â'i wreiddiau yn niwedd Oes Fictoria a dechrau'r ugeinfed ganrif oedd sefydlu'r Wasg, ymhlith nifer o sefydliadau cenedlaethol pwysig eraill, megis y Llyfrgell Genedlaethol a'r Amgueddfa Genedlaethol. Cawn flas o'r adfywiad hwn yn atgofion yr academydd Stephen J. Williams

o'i flynyddoedd fel myfyriwr: 'Blynyddoedd cyffrous anarferol oedd 1920 a 1921 i Gymry Cymraeg colegau'r Brifysgol. Tybed a brofwyd cymaint o afiaith gan y cenedlaethau a ddilynodd y genhedlaeth gyntaf wedi'r rhyfel mawr cyntaf? Dyma gyfnod o ddarganfod o'r newydd ogoniannau gorffennol bywyd y genedl ac o fagu ffydd newydd yn ei dyfodol hi.'³ Roedd annog cydweithrediad rhwng sefydliadau newydd fel y Llyfrgell Genedlaethol a'r Brifysgol i rannu ffrwyth eu llafur gyda'r cyhoedd ehangach yn rhan o'r argymhellion a arweiniodd at sefydlu'r Wasg. Ceir yr argymhellion hyn yn Adroddiad Comisiwn Haldane a gyhoeddwyd ym 1918. Un o gasgliadau'r Adroddiad oedd yr awgrym canlynol, sy'n amlygu'r amcanion deublyg oedd wrth wraidd sefydlu'r Wasg:

We will conclude this Part (Part III) of our Report by recommending the establishment of a new element in Welsh University Organisation which would, we think, serve as a strong link between the University and the Welsh people, and would also give new opportunities and much-needed encouragement to students and researchers both within and without the University. We mean the establishment of a University Press...⁴

Bwriedir y Wasg o'r cychwyn, felly, i fod yn ddolen gyswllt rhwng y Brifysgol a'r cyhoedd, ac yn fodd i'w staff gyhoeddi ffrwyth eu hymchwil ym meysydd y Gymraeg ac Astudiaethau Celtaidd yn arbennig.

Cyfeiriwyd yn yr adroddiad hefyd at roi 'practical help to intellectual workers outside the University' fel rhan o genhadaeth y Wasg, a dros y ddau ddegawd nesaf aeth ymlaen i gyhoeddi llyfrau amrywiol a ddefnyddiwyd yn helaeth yn nosbarthiadau efrydiau allanol y Brifysgol a rhai Cymdeithas Addysg y Gweithwyr, fel y gwelwn. Ffrwyth comisiwn brenhinol a sefydlwyd ym 1916 er mwyn archwilio cyflwr addysg brifysgol yng Nghymru yn gyffredinol oedd Adroddiad Comisiwn Haldane. Cydnabu'r adroddiad y byddai angen cefnogaeth ariannol sylweddol am gyfnod hirdymor ar y wasg newydd i ariannu ei chyhoeddiadau, ac argymhellwyd y dylai'r Brifysgol ei hun ddarparu'r gefnogaeth honno. Ffurfiodd

saith ffigwr blaenllaw o'r byd academiaidd y panel a gadeiriodd yr Arglwydd Haldane, gan gynnwys Cymry amlwg fel Syr O. M. Edwards a'r athronydd Syr Henry Jones, ac 'un ferch', sef Emily Penrose, Pennaeth Coleg Somerville, Rhydychen, yn ôl T. H. Parry-Williams. Cofiai Syr Henry yn ymweld â'i adran yn Aberystwyth i gael barn y staff pan oedd yn 'lefnyn anaeddfed o Ddarlithydd Cynorthwyol Dros-dro'.⁵ Yn dilyn ymweliadau o'r fath, bu i'r panel baratoi adroddiad hirfaith a manwl â chyfres o argymhellion o'i fewn ynglŷn ag Astudiaethau Celtaidd, a oedd ym marn Parry-Williams yn 'anghyffredin o ddiddorol'. Yn ei atgofion o'i ymwneud â Bwrdd y Wasg dros gyfnod o ddeugain mlynedd, cyfeiriodd at yr awgrym cyffredinol y dylid rhoi mwy o sylw i lenyddiaeth a hanes llenyddiaeth yng ngwaith y Brifysgol, a llai ar ietheg a gramadeg yn unig. Un o'r prif argymhellion oedd sefydlu Bwrdd Gwybodau Celtaidd, a gwirededwyd yr awgrym hwnnw'n sydyn, gyda'r cyfarfod cyntaf yn cael ei gynnal ym 1919.⁶ Penderfynodd Llys y Brifysgol yn swyddogol i ffurfio Bwrdd y Wasg mewn cyfarfod a gynhaliwyd yn Abertawe ym mis Tachwedd 1921, a chynhaliwyd y cyfarfod cyntaf o'r Bwrdd yn swyddfa'r Brifysgol ar Sgwâr Russell, Llundain, ar y 6ed o Ionawr y flwyddyn ganlynol.

Cyfarfodydd Cyntaf Bwrdd y Wasg

Cadeirydd cyntaf y Bwrdd oedd Syr John Ballinger, llyfrgellydd gwreiddiol Llyfrgell Genedlaethol Cymru, a'r aelodau eraill a ddaeth at ei gilydd yn Llundain oedd Dirprwy-Ganghellor Prifysgol Cymru Yr Arglwydd Kenyon, Yr Is-Ganghellor A. H. Trow, a'r ysgolheigion J. H. Davies, W. J. Gruffydd, Syr John Morris-Jones a T. Franklin Sibly.⁷ Jenkin James oedd ysgrifennydd cyntaf y Bwrdd, a bu'n dal y swydd allweddol hon am gyfnod o dros ugain mlynedd. Trosglwyddwyd y cyhoeddiadau y bu Urdd y Graddedigion yn gyfrifol amdanynt yn ffurfiol i Fwrdd y Wasg yn y cyfarfod cyntaf hwn, a phenderfynwyd mai Cofrestrfa'r Brifysgol ym Mharc Cathays fyddai ei swyddfa gyhoeddi.⁸ Yn y cyfarfod nesaf yn Chwefror 1922, ffurfiwyd is-bwyllgor o'r Arglwydd Kenyon a Syr John Morris-Jones i ystyried ymhellach y posibilrwydd o gynllunio

gwasgnod addas.⁹ Seiliodd John Morris-Jones ei gynllun, a ddefnyddir hyd heddiw, ar arfbais pedwar llew Tywysogaeth Cymru o 1267. Yn ystod ail gyfarfod y Bwrdd, derbyniwyd argymhellion o Senedd Coleg y Brifysgol yn Aberystwyth a gyfeiriai at y diffyg llyfrau testun addas ar gyfer nifer o'r pynciau a ddysgwyd yno, a'r angen i'r Bwrdd gymryd cyfrifoldeb dros eu darparu. Cawn awgrym clir o ba mor eang y gobeithiai'r Bwrdd i gynulleidfa'r llyfrau fod yn y rhestro o sefydliadau y penderfynwyd eu gwahodd i gynnig awgrymiadau o ran ei raglen gyhoeddi. Yn eu plith roedd seneddau gwahanol golegau'r Brifysgol, Mudiad yr Ysgolion Sir, yr Eisteddfod Genedlaethol a Chymdeithas Alawon Gwerin Cymru. Lluniwyd memorandwm ffurfiol ynglŷn â phwerau a chyfrifoldebau'r Bwrdd yn dilyn trafodaeth yn y ddau gyfarfod cyntaf. Cyfeirir at bwysigrwydd dosbarthu cyhoeddiadau'r Bwrdd yn effeithiol yn y memorandwm hwn, gan gynnwys penodi asiant yn Llundain, sef Humphrey Milford, a sicrhau cydweithrediad llyfrwerthwyr yn nhrefi colegau'r Brifysgol yng Nghymru. Roedd sicrhau'r safonau uchaf posib yn flaenoriaeth i'r Bwrdd o'r cychwyn:

One of the chief aims of the Board should be to keep the standard of its books as high as possible in regard to printing, illustrations, binding and other accessories. The influence of a well-produced book is worthy of study. Hitherto the craftsmanship of books in Wales has suffered for want of attention to details of production. Yet Lady Guest's translation of *The Mabinogion* printed at Llandovery is a fine example of book production.¹⁰

Penderfynwyd hefyd y byddai'r deipysgrif ar gyfer pob cyfrol a gyhoeddir dan enw'r Bwrdd yn cael ei hasesu gyntaf gan arbenigwr academiaidd addas a fyddai'n llunio adroddiad i'w sylw, ac y byddai'r tendr ar gyfer cyhoeddi pob llyfr yn cael ei gynnig i wahanol gyhoeddwyr, yng Nghymru a dros y ffin, er mwyn sicrhau'r costau mwyaf cystadleuol.¹¹ Arweiniodd hynny at amrywiaeth o gwmnïau gwahanol yn argraffu llyfrau'r Wasg yn y degawdau cynnar, gan gynnwys cyhoeddwyr Cymreig fel Gomer a Hughes a'i Fab, a rhai Saesneg fel y Clarendon Press a Macmillan and Co. Er i'r Bwrdd nodi'r bwriad o annog argraffu'r llyfrau yng

Nghymru, awgrymwyd hefyd bod lle i wella o ran safonau'r cwmnïau Cymreig: 'To foster good work the Board should encourage the printing and binding of books by firms in Wales. Some firms may be willing to undertake the production of books as a special branch of business, and to organise accordingly. At present the best produced books for the Welsh market are not printed in Wales. The *Archaeologia Cambrensis* and the publications of the Honourable Society of Cymmrodorion are printed by Devizes firms.'¹² Sefydlwyd o'r cychwyn, ymhellach, y byddai o leiaf rhai o lyfrau'r Wasg yn addas ar gyfer cynulleidfa o ddarllenwyr cyffredinol, gan gynnwys plant ysgol, yn hytrach nag ysgolheigion ac ymchwilwyr yn unig: 'Inquiry should be made with regard to the requirements for schools of all grades, and books for general circulation which may be held to come within the scope of the Board's operations.'¹³

Llyfrau Cynnar y Wasg

Cyhoeddwyd y gyfrol gyntaf o dan enw Bwrdd y Wasg ym 1923, sef golygiad Thomas Roberts ac Ifor Williams o gerddi Dafydd Nanmor.¹⁴ Yn ail adroddiad blynyddol y Bwrdd y flwyddyn honno, cyfeiriwyd at y bwriad i gyhoeddi mwy o weithiau tebyg: 'The publication of old Welsh texts hitherto unpublished, of reprints of some of the old Welsh classics which have become very rare, and the production of works containing the results of modern scholarship, offers a wide range of activity'.¹⁵ Aeth Ifor Williams ymlaen i wneud cyfraniad enfawr i raglen gyhoeddi'r Bwrdd dros y ddeugain mlynedd nesaf, gan lunio cyfres o gyfrolau a golygiadau ar amrywiaeth gyfoethog o glasuron y traddodiad barddol Cymraeg, fel *Canu Llywarch Hen* (1935), *Canu Aneirin* (1938), a *Canu Taliesin* (1960). Comisiynwyd T. Gwynn Jones hefyd ym mlwyddyn gyntaf y Bwrdd i baratoi cyfrol ar farddoniaeth Tudur Aled, ond bu'n bedair blynedd nes i'r gwaith hwnnw gael ei gyhoeddi ym 1926.¹⁶ Bu hanner cyntaf y 1920au yn gyffredinol yn gyfnod o sefydlu ac amlinellu gwaith y Bwrdd ac o gomisiynu'r cyfrolau a ddechreuodd ymddangos yn fwy rheolaidd tuag at ddiwedd y degawd. Dysgwn yng nghofnodion cyfarfodydd y Bwrdd ym 1926, er enghraifft, y

comisiynwyd W. J. Gruffydd y flwyddyn honno i greu blodeugerdd o farddoniaeth Gymraeg a gyhoeddwyd ym 1931.¹⁷ Penderfynwyd yr un flwyddyn y byddai Gruffydd a Henry Lewis yn golygu argraffiadau o lawysgrifau Peniarth 35 a 56, menter sy'n nodweddiadol o'r cydweithredu agos rhwng y Bwrdd a'r Llyfrgell Genedlaethol yn Aberystwyth yn y blynyddoedd cynnar i gyhoeddi hen destunau Cymraeg o'r fath.¹⁸

Bu W. J. Gruffydd yn arbennig o weithgar fel aelod o'r Bwrdd ac awdur yn y blynyddoedd cynnar, a chlodforwyd ei ysgolheictod mewn adroddiad ar deipysgrif ei gyfrol ar bedwaredd gainc y Mabinogi, Math vab Mathonwy, a luniodd Yr Athro J. Lloyd-Jones: 'Not for a long time have I read anything so suggestive and stimulative, and the soundness of his argument and reasoning allays any surprise that one might feel at the striking conclusions he arrives at. Throughout one is impressed by the brilliant imagination and at the same time by the thoroughness of the writer, so that one ceases to wonder at the results of his inquiries into the sources of the various elements in the tale.'¹⁹ Cyhoeddwyd y llyfr hwn ym 1928, a thair blynedd yn ddiweddarach ymddangosodd y rhan gyntaf o gampwaith yr adolygydd yntau, *Geirfa Barddoniaeth Gynnar Gymraeg*.²⁰ Bu Lloyd-Jones yn astudio ym mhrifysgolion Rhydychen a Freiburg cyn ei benodi'n bennaeth cyntaf yr Adran Gymraeg yng Ngholeg y Brifysgol, Dulyn, a chyhoeddwyd chwe chyfrol arall o'r (*G*)*eirfa Barddoniaeth Gynnar Gymraeg* dan ei enw cyn ei farwolaeth ym 1956.²¹ Yn ei deyrnged iddo, dywedodd Thomas Parry: 'Y mae'r hyn a argraffwyd cyn marw'r awdur yn 672 o dudalennau mawrion, a thua 2000 o eiriau a ffigurau ar bob un. Cynnwys ugeiniau o eiriau cyfarwydd, ac ugeiniau hefyd a eglurwyd am y tro cyntaf yn y gwaith hwn. Y mae llawnder a manylder ambell ymdriniaeth yn syfrdanol'.²²

Yn ddiddorol iawn, un o'r llyfrau cyntaf oll i gael ei gyhoeddi dan enw'r Wasg oedd cyfrol ym maes barddoniaeth Roegaid gan y darlithydd Clasuron o Goleg y Brifysgol yng Nghaerdydd, Kathleen Freeman, *The Work and Life of Solon*, ym 1926.²³ Yn ôl adroddiad blynyddol y Bwrdd ar gyfer y flwyddyn honno, 'this work gives a complete account of the work and life of Solon, and estimates his contribution to the development of the Athenian community'.²⁴

Roedd Freeman hefyd yn nofelydd poblogaidd ac yn ffigwr arloesol yn natblygiad y Brifysgol yng Nghymru. Er na fu unrhyw aelodau o Fwrdd y Wasg yn fenywod yn ystod ei hanner canrif cyntaf, cyhoeddwyd sawl cyfrol gan awduron benywaidd o'r blynyddoedd cyntaf ymlaen, megis yr hanesydd Nesta Evans.²⁵ Derbyniodd y Wasg grant o £50 gan y Bwrdd Gwybodau Celtaidd ym 1936, i gyhoeddi ei chyfrol ar hanes Sir Fôn yn y ddeunawfed ganrif a seiliwyd ar ei hastudiaeth agos o ddyddiaduron William Bulkeley, Brynddu. Cyhoeddwyd ei hail gyfrol yn yr un maes yn y 1950au cynnar. Dengys cyfrol Kathleen Freeman hefyd nad oedd cyhoeddiadau'r Bwrdd wedi eu cyfyngu i rai o fewn astudiaethau Celtaidd a Chymreig o'r cychwyn cyntaf, er bod y pwyslais yn gryf ar yr angen i gynyddu'r nifer o gyhoeddiadau modern yn y maes hwnnw. Ym 1926 hefyd, felly, cyhoeddwyd cyfrol T. Hudson-Williams, ieithydd disglair o Goleg y Brifysgol ym Mangor, ar *Early Greek Elegy*.²⁶

Rhan allweddol bwysig o osod gwaith y Wasg ar seiliau cadarn oedd adroddiad a luniodd panel o W. J. Gruffydd, Syr John Morris-Jones a Henry Lewis ar ran y Bwrdd ym 1924, yn amlinellu'r math o lyfrau y dylid blaenoriaethu eu cyhoeddi yn y Gymraeg yn ei flynyddoedd cynnar.²⁷ Dosbarthwyd y llyfrau hyn i mewn i bedwar categori gan y panel. Yn gyntaf, llyfrau yn ymwneud â Chymru ym meysydd hanes, daearyddiaeth, hanes llenyddiaeth Gymraeg, diwydiannau Cymru a'i henwau lleoedd. Yn ail, llyfrau cyffredinol ar ystod eang o bynciau, gan gynnwys hanes Ewropeaidd; gwledydd Ewrop a chyfandiroedd eraill; llywodraeth, y Clasuron, crefyddau Beiblaidd a dwyreiniol; a llawlyfrau ar lenyddiaeth dramor, economeg, celf, cerddoriaeth a phensaerniaeth. Rhannwyd y trydydd categori, sef llyfrau llenyddol, mewn i bedair isadran: detholiadau o farddoniaeth Gymraeg; detholiadau o ryddiaith Gymraeg; gweithiau canoloesol, gan gynnwys rhai mytholegol a rhai ym maes llên gwerin; ac yn olaf, antholeg gyffredinol o farddoniaeth a rhyddiaith Gymraeg a fyddai'n cymryd casgliad hynod boblogaidd y cyn-Fardd Llawryfog, Robert Bridges (1844–1930), *The Spirit of Man*, fel model i'w efelychu.²⁸ Llyfrau Cymraeg i ysgolion a cholegau oedd y categori olaf o'r pedwar, gan gynnwys argraffiadau gyda nodiadau helaeth o destunau canoloesol, barddoniaeth gynnar a gweithiau o'r cyfnod modern cynnar, ynghyd â llyfrau gwyddonol

ar fotaneg, amaethyddiaeth a garddwriaeth, a chyfeirlyfrau ar ieithoedd tramor. Yn gyffredinol, anelai'r panel i'r cyhoeddiadau hyn efelychu cyfresi poblogaidd cyffelyb yn Saesneg o ran eu pris a'u diwyg, nod sy'n brigo i'r amlwg trwy gydol y cyfnod dan sylw wrth i'r farchnad ar gyfer llyfrau clawr meddal dyfu'n rhyngwladol yn y 1930au, yn arbennig gyda dyfodiad gweisg fel Penguin: 'it will be seen that the list aims at something on the lines of the Home University Library and...series such as the World's Classics. The Committee feels that a scheme like the above would make Welsh an instrument of wide culture.'²⁹

Gwnaeth aelod o'r panel, sef Henry Lewis, ei angerdd dros gyhoeddi mwy o weithiau academaidd yn y Gymraeg yn glir mewn erthygl rymus i'r *Llenor* ym 1923, a chyfeiriodd at ran allweddol y Wasg yn y gwaith. Cyfeiriodd hefyd at y Seisnigrwydd a'r snobyddiaeth a nodweddai agweddau o waith y Brifysgol yng Nghymru hyd at y cyfnod hwnnw, elfennau y gellir gweld eu hól yng nghofnodion cynnar Bwrdd y Wasg a'r ohebiaeth gydag awduron am eu llyfrau, sydd bron yn ddieithriad yn Saesneg. Galwodd Lewis ar ysgolheigion yng Nghymru i wrthod y Seisnigrwydd hwnnw ac ymroi i gyhoeddi eu gwaith yn y Gymraeg beth bynnag fo natur pwnc eu hymchwil:

Dysgir pob math o bynciau yng Ngholegau'r Brifysgol, ond ychydig iawn a elwodd iaith y genedl Gymreig arnynt erioed. Wrth gwrs, cyfyng iawn fyddai cylch darllenwyr pethau felly, ac ychydig iawn o enwogrwydd a chlod a welai arloeswyr y ffordd yn eu dydd hwy. Eithr byddai'r bywyd newydd a roent yn yr iaith o werth amhrisiadwy iddi hi, ac wedi hir ymdrech fe ddeuai cynhyrchion Cymraeg Gwasg Prifysgol Cymru'n werthfawr i bob sgolhaig, o leiaf. Faint ohonom sy'n barod i aberthu tipyn o glod ac o "enwogrwydd Ewropëaidd" er mwyn gwneuthur yr iaith Gymraeg yn rhywbeth gwerth ei gynnig i bobl. Peidiwn ni, Gymry, pe na bai ond o gwrteisi â dilorni'r Brifysgol a'i hathrawon anghymreig a gwrthgymreig hyd oni ddysgom fyned i mewn drwy'r porth cyfyng hwn i brofi'n sêl dros ein hiaith.³⁰

Bu penderfyniad Bwrdd y Wasg ym 1928 i apwyntio asiant teithiol er mwyn hybu gwerthiant llyfrau o'r math uchod ledled Cymru a thu hwnt yn hwb pendant i weledigaeth Henry Lewis.

Dechreuodd Ben Jones yn y swydd ym mis Awst a rhoddwyd car iddo er mwyn hwyluso'i waith.³¹

Asiant y Wasg

Yn ei adroddiad cyntaf i'r Bwrdd y Chwefror canlynol, dywed iddo ymweld â chymaint o ysgolion, colegau, llyfrgelloedd a llyfrwerthwyr â phosib trwy'r wlad dros y chwe mis blaenorol. Amlinellodd natur yr her a wynebai yn glir i aelodau'r Bwrdd: 'As the scheme is a new venture, it is a case of pioneering, and progress is of necessity gradual. On the whole I have been received very kindly, but found that booksellers were afraid to venture upon the Welsh publications of the Board owing to the present small demand.'³² Llwyddodd i sicrhau ugain o gyfrifon newydd, serch hynny, yn ei flwyddyn gyntaf. Yn y cyfnod hwnnw bu'n arddangos cyhoeddiadau'r Bwrdd mewn cant a hanner o ysgolion, saith deg o lyfrgelloedd, cant chwe deg o siopau llyfrau, ac i nifer o unigolion hefyd. Cyn hynny, bu gwaith y Bwrdd yn anweledig i'r mwyafrif o ddarllenwyr yng Nghymru, meddai, a cheisiodd annog yr aelodau i ystyried helaethu ei restr:

In the course of my itineraries, I have found that the existence of the Press Board is not generally known. If I may say so, I feel that some publications of a more popular character than the general run of the Board's publications would do much to remove this ignorance and serve to introduce the more strictly classical books. A book which would be on a popular topic while retaining the ideals of the Board is conceivable; probably the New Song Book is of such nature. In addition to the ultra-Classical order of the books, the price is in many cases a severe handicap to sales.³³

Erbyn haf 1929, roedd Ben Jones wedi cynrychioli'r Bwrdd a rhoi darlithoedd am ei gyhoeddiadau mewn ystod o arddangosfeydd a digwyddiadau cenedlaethol, fel Eisteddfod yr Urdd ('a new and important national movement'), cynhadledd Undeb yr Athrawon (NUT), cynhadledd Sefydliad y Menywod (*Women's Institute*) yng Nghymru, a'r Eisteddfod Genedlaethol. Casglodd mai'r llyfrau

mwyaf poblogaidd yn ystod digwyddiadau o'r fath oedd rhai fel *Hanes Cymru yn y Ddeunawfed Ganrif*, R. T. Jenkins, rhan o gyfres newydd 'Y Brifysgol a'r Werin' y Bwrdd, a cheisiodd ddarbwyllu'r aelodau i gyhoeddi mwy o lyfrau poblogaidd eu natur o'r math hwn.³⁴ Teimlai'n hyderus yn ei adroddiad ar ddiwedd y flwyddyn ei fod wedi ymweld â phob llyfrwerthwr yng Nghymru, a thrwy hynny bod ymwybyddiaeth o waith y Bwrdd wedi'i sefydlu'n gadarn ledled y genedl.³⁵

Yn ystod 1930 bu'n ymweld ag arddangosfeydd dros y ffin, megis cynhadledd yr NUT yn Bournemouth, yn ogystal â Gŵyl Lyfrau Cymru, a gynhaliwyd am y tro cyntaf yng Nghaerdydd y flwyddyn honno. Tipyn o siom fu'r ymweliad hwnnw, ysywaeth: 'It is very difficult to estimate the value of this festival, being the first of its kind to be held in Wales. I do not think we shall benefit by such exhibitions, as you cannot expect children of 9 to 15 years of age to be interested in your publications. The number of adults who attended was very disappointing'.³⁶ Parhaodd Ben Jones i deithio'r wlad yn hyrwyddo gwaith y Bwrdd yn ddiplino hyd ei ymddiswyddiad ym 1936, pan gychwynnodd ar her newydd yn gweithio i Wasg Prifysgol Rhydychen. Penodwyd Elwyn Gruffydd i'w ddilyn yn y swydd ym mis Tachwedd 1936 gyda chyflog o £200 y flwyddyn am gyfod o bum mlynedd, ynghyd â swm o £100 i brynu car (ail-law), a swm o ddeg swllt y noson i aros dros nos mewn gwahanol drefi.³⁷ Cyrhaeddodd cyhoeddiadau Bwrdd y Wasg bellafoedd byd o'r blynyddoedd cynnar yn ogystal â'r siopau llyfrau y bu Ben Jones yn ymweld â hwy mor ddiwyd, fel y datgelir mewn cofnod diddorol o un o'i gyfarfodydd ym 1925 pan ddarllenwyd llythyr oddi wrth Brifysgol Tokyo yn gofyn: 'for a grant of all the Board's publications to the British contribution in aid of a scheme for rehabilitating its Libraries destroyed in the great earthquake. It was resolved that this be done.'³⁸

Ifor L. Evans a thwff y Wasg

Bu John Ballinger farw ym 1933, ddwy flynedd wedi i'r Esgob Ddr. Gilbert Joyce, neu 'Gilbert Monmouth' fel y'i adwaenir yn y

cofnodion, ei ddilyn fel cadeirydd Bwrdd y Wasg. Bu Joyce yn y gadair am wyth mlynedd, nes i Ifor L. Evans, a ymunodd â'r Bwrdd ym 1934, ei olynu. Penodwyd Evans yn Brifathro Coleg y Brifysgol yn Aberystwyth yr un flwyddyn, a bu'n llawer mwy cydymdeimladol â'r amcan o gyhoeddi mwy o lyfrau yn yr iaith Gymraeg na'i ragflaenwyr. Cafodd brofiad blaenorol o'r byd cyhoeddi fel un o ddau olygydd, gyda'i gyfaill Henry Lewis, menter bwysig o'r fath wedi'r Rhyfel Byd Cyntaf, sef 'Cyfres y Werin'. Cyhoeddwyd pymtheg o glasuron llenyddiaeth Ewrop yn y gyfres hon yn ystod y 1920au, ac yng ngeiriau Evans ei hun mewn adroddiad i'r Bwrdd ar y syniad o adfywio'r gyfres wedi'r Ail Ryfel Byd: 'Started by two utterly inexperienced youthful enthusiasts, immediately after WWI, and supported, to the tune of £100, by a small group, consisting mainly of Swansea dockmen, this series was continued, under the original editors, first by the Educational Publishing Company and then by Hughes and Son'.³⁹ Parhaodd y cydweithrediad rhwng Lewis ac Evans a'r mentro ar eu rhan fel aelodau allweddol o Fwrdd y Wasg yn y 1930au a'r 1940au wrth i'w raglen gyhoeddi dyfu a datblygu. Ynghyd ag R. T. Jenkins, W. J. Gruffydd a T. H. Parry-Williams, sicrhaodd y ddau gyfaill fod y Bwrdd nid yn unig yn llenwi'r bylchau mwyaf amlwg yn y ddarpariaeth o glasuron llenyddol y Gymraeg, ond hefyd yn paratoi astudiaethau arloesol newydd o'r traddodiad hwnnw a phynciau eraill fel hanes, cerddoriaeth ac athroniaeth gan ysgolheigion mentrus megis Ifor Williams, G. J. Williams ac R. I. Aaron.

Roedd Ifor L. Evans yn ŵr cymharol ifanc, ychydig dros ddeugain oed pan ddechreuodd yn ei rôl fel cadeirydd y Bwrdd, a bu'n ffigwr egnïol yn natblygiad y Wasg tan ei farwolaeth gynamserol ym 1952. Noda T. H. Parry-Williams yn ei atgofion o'i ymwneud â'r Bwrdd pa mor uchelgeisiol a llwyddiannus y bu ei gyfnod wrth y llyw:

Yr oedd gan y Cadeirydd newydd ei syniadau arbennig ynglŷn â'r mathau o lyfrau i'w cefnogi ar gyfer eu cyhoeddi. Mwy o lyfrau o natur gyffredinol, gydag apêl ehangach, mwy o lyfrau o natur grefyddol a defosiydol, mwy o sylw i gerddoriaeth (yn enwedig

“musical classics”); ac fe lwyddodd drwy ei ymroddiad personol a thrwy gydweithio ac eraill, i hyrwyddo’i syniadau ac i ddwyn ei amcanion i ben i raddau helaeth.⁴⁰

Teithiai T. H. Parry-Williams o Aberystwyth i gyfarfodydd y Bwrdd yn Amwythig gydag Ifor L. Evans ac aelod arall o’r Bwrdd, E. A. Lewis, o’i apwyntiad ym 1934 ymlaen, profiad a seriwyd ar gof y bardd ac ysgolhaig: ‘Yr oedd tri ohonom yn awr yn cyd-deithio yng ngherbyd y Prifathro, a’i yrrwr preifat wrth y llyw. Os gyrrai hwnnw i ben y daith – Amwythig, dyweder – mewn record o amser, fe gai anrheg gan ei feistr; a chanlyniad y gyrru gwyllt fyddai fy mod i’n dyheu am iddo arafu neu aros, gan y byddai salwch-car yn dod drosaf i yn ddieithriad, ac amheuthun fyddai gweld gwesty ar y gorwel yn rhywle.’⁴¹ Tueddai cyfarfodydd y Bwrdd gael eu cynnal naill ai yng ngwesty’r Raven neu’r Guildhall yn Amwythig ac ambell dro yn y blynyddoedd cynharaf, yn Llundain.

Mentrau Newydd

Bu’r 1930au a’r 1940au cynnar yn gyfnod o brysurdeb yn gyffredinol ym myd cyhoeddi Cymraeg, gyda’r brodyr Aneirin ac Alun Talfan Davies yn cychwyn Llyfrau’r Dryw yn Abertawe, Gwasg Gee yn Ninbych yn mentro ar gyfres gyffelyb Llyfrau Pawb, a’r bardd dawnus Prosser Rhys yn datblygu Gwasg Aberystwyth a menter gysylltiedig y Clwb Llyfrau Cymreig yng Ngheredigion.⁴² Cyfres eclecticig o lyfrau neu lyfrynau byr a gyhoeddodd wasg y Dryw yn wreiddiol, a nod tebyg y Clwb Llyfrau Cymreig oedd cynnig amrywiaeth o nofelau, llyfrau teithio, llyfrau hanes a chasgliadau o ysgrifau gan rai o brif lenorion ac ysgolheigion y genedl, fel T. H. Parry-Williams, Elena Puw Morgan a D. Tecwyn Lloyd i’w haelodau yn rheolaidd am bris rhesymol. Roedd un o’r mentrau mwyaf diddorol y bu Ifor L. Evans yn gyfrifol am ei chychwyn yn ystod ei gadeiryddiaeth o’r Bwrdd yn rhan o’r un don o weithgarwch, sef cyfres o lyfrau byr, hylaw, rhad a gyhoeddwyd yn ystod yr Ail Ryfel Byd, yn rhannol i’w darllen gan filwyr o Gymru

dros y moroedd er mwyn codi eu hysbryd. Gwneir amcanion y Bwrdd yn gwbl glir yn rhagair y cyntaf o'r llyfrau hyn, *Hwnt ac Yma*, antholeg lenyddol ar themâu yn ymwneud â Chymru a Chymreictod. Amddiffyn yr elfennau hynny nid yn unig rhag bygythiad y gelyn oedd nod cyhoeddiadau o'r fath, dywedir, ond hefyd rhag y perygl o'r diwylliant Cymraeg yn cael ei foddi gan ddylanwadau o dros y ffin:

Y mae'n amser difrifol arnom fel cenedl. Bob wythnos y mae nifer yr ymogelwyr sydd yn gorfod dianc o Loegr yn cynyddu. Ychydig iawn ohonynt sydd yn gwybod dim o gwbl am Gymru chwaethach gydymdeimlo â'i thraddodiadau a'i dyheadau. Ar yr un pryd gwelwn gannoedd o'n bechgyn (a'n merched hefyd, o ran hynny) yn gorfod gadael Cymru am fannau lle nad oes ond y gobaith gwannaf iddynt ddod dan unrhyw ddylanwad Cymreig.⁴³

Detholiad o farddoniaeth a rhyddiaith ar thema rhyddid oedd yr ail gyfrol a gyhoeddwyd ym 1941 dan olygyddiaeth Emrys Evans, olynnydd Ifor L. Evans fel cadeirydd y Bwrdd ym 1952, ac R. T. Jenkins. Nodir yn rhagair *Llais Rhyddid* na chyfyngodd y Bwrdd eu dewis i awduron Cymraeg yn unig, a cheir darnau o waith Platon, Voltaire, John Stuart Mill, Henry David Thoreau a Henri Bergson ynnddi ochr yn ochr â dyfyniadau cyffelyb ar themâu fel awdurdod, cyfrifoldeb, a'r genedl gan Samuel Roberts (S. R.), Iolo Morganwg, Emrys ap Iwan ac Iorwerth C. Peate.⁴⁴ Cyhoeddwyd y trydydd detholiad o'r fath ym 1943 ar thema *Y Flwyddyn yng Nghymru*. Eglurir yn rhagair y gyfrol ei bod wedi ei baratoi, fel y ddwy flaenorol, gyda golwg i'w ddefnyddio mewn ysgolion yn ogystal ag er mwyn diddori milwyr Cymreig dramor, adlewyrchiad o'r modd y gwelai'r Bwrdd gyhoeddiadau'r Wasg fel rhan bwysig o addysg Cymry o bob oedran. Rhannai pob cenhedlaeth, ymhellach, yr un ofnau ac ansicrwydd wedi pedair mlynedd o ryfel enbyd: 'Onid ydym oll, ieuanc a hen, yn y dyddiau dyrus hyn, wedi ymddadebru, a dechrau dirnad unwaith eto fesur ein dibyniaeth ar y Rhagluniaeth honno nad oes na huno na chysgu yn ei hanes'.⁴⁵

Er gwaethaf cyfyngderau economaidd a materol y rhyfel, megis prinder papur yn fwyaf amlwg yng nghyd-destun y byd cyhoeddi,

llwyddwyd i barhau gwaith y Bwrdd rhwng 1939 a 1945, er na fu'r aelodau'n ymgynnull mewn person mor rheolaidd, adlais o'r cyfyngiadau a ddilynodd pandemig y coronafeirws yn 2020. Yn ogystal â chyfresi fel y detholiadau gwladgarol eu naws a drafodwyd uchod, aeth rhaglen gyhoeddi arferol y Wasg yn ei blaen gyda chyfrolau fel *Cyfreithiau Hywel Dda* yn ymddangos ym 1942.⁴⁶ Un o olygyddion y casgliad hwn ynghyd â Stephen J. Williams, awdur sawl cyfrol bwysig i'r Wasg fel *Elfennau Gramadeg Cymraeg*, oedd y gwleidydd Ceidwadol hiliol, drwg-enwog, Enoch Powell.⁴⁷ Roedd Powell yn ieithydd disglair ac academydd cyn cychwyn ar ei yrfa wleidyddol yn y Blaid Geidwadol, a bu'n ddigon hyderus i gynnal ambell gyfweiliad teledu yn y Gymraeg wedi'r Ail Ryfel Byd, er mai fersiwn digon rhyfedd, hynafol o'r iaith a siaradai.

Modernrwydd a'r Wasg

Bu cychwyn y Wasg yn un o blith nifer o fentrau modern, pwysig ym myd cyhoeddi Cymraeg rhwng y rhyfeloedd yr oedd W. J. Gruffydd ac aelodau eraill o'r Bwrdd yn rhan ganolog o'u trefnu. Cyhoeddwyd cylchgrawn arloesol *Y Llenor* am y tro cyntaf o dan olygyddiaeth Gruffydd yn yr un flwyddyn a sefydlwyd Bwrdd y Wasg. Ystyrir 1922 yn flwyddyn ffurfiannol yn natblygiad moderniaeth lenyddol yn Ewrop yn gyffredinol, gyda chyhoeddi gweithiau allweddol fel nofel James Joyce, *Ulysses*, ym Mharis a cherdd T. S. Eliot, *The Waste Land*, yn Llundain.⁴⁸ Clodforwyd y Bwrdd yn rheolaidd yn adolygiadau'r *Llenor* a chylchgronau mwy hirhoedlog fel *Y Traethodydd*, am ddarparu cyfrolau o safon ar lenyddiaeth a hanes Cymru wrth i'w raglen gyhoeddi dyfu a chyflymu tua diwedd y 1920au a dechrau'r 1930au. Bu'r ddau ddegawd rhwng y rhyfeloedd byd yn sicr yn gyfnod o brysurdeb ac adfywiad neilltuol ym myd llyfrau Cymraeg, gydag awduron fel rhai o enwau amlycaf y Wasg yn golygu a dadansoddi'r clasuron llenyddol o'r newydd gan wthio'r iaith i gyfeiriadau modernaidd, newydd yn eu gweithiau creadigol a beirniadol. Adlewyrchwyd yr awydd i drin pynciau amrywiol o bob math

trwy'r Gymraeg yn y rhestr wreiddiol o lyfrau i'w cynnwys yng nghyfres 'Y Brifysgol a'r Werin' a luniodd is-bwyllgor ar ran y Bwrdd ym 1927.⁴⁹

Ceir llyfrau ar seicoleg, athroniaeth, economeg, amaethyddiaeth a gwyddoniaeth ar y rhestr hon, a llwyddwyd i wireddu'r uchelgais o gyhoeddi llyfrau yn y meysydd hynny o fewn y gyfres yn y mwyafrif o achosion, er i ambell gyfrol fethu ymddangos. O ystyried y cyfoeth o lyfrau ac ysgrifau eraill ym maes cyffrous seicoleg a seicdreiddiad a gyhoeddwyd yn y Gymraeg tua'r un adeg, mae'n drueni mawr yn arbennig i gyfrol arfaethedig yr Athro Idwal Jones o Goleg y Brifysgol yn Aberystwyth beidio cael ei chwblhau. Gresyn na ymddangosodd yr unig gyfrol arfaethedig gan awdures ar y rhestr, sef Gwenan Jones, ychwaith, oherwydd byddai llyfr cyfan ar addysg gan ffigwr a fu mor flaengar ac arloesol o ran ei syniadau yn y maes hwnnw rhwng y rhyfeloedd byd wedi bod yn gaffaeliad mawr i'r gyfres.⁵⁰ Bu'n fwriad yn wreiddiol i gynnwys cyfrol ar Foderniaeth yn y gyfres hefyd, llyfr a fyddai wedi bod yn arbennig o ddiddorol mewn cyfnod pan oedd dylanwad technegau a syniadau'r mudiad hwnnw yn dechrau ymddangos yng ngweithiau llenorion Cymraeg fel T. H. Parry-Williams.

Mae adolygiad cylchgrawn *Cymru* o gyfrol T. Gwynn Jones ar farddoniaeth Tudur Aled, a gyhoeddwyd mewn dwy ran, yn nodweddiadol o'r clod a dderbyniodd Bwrdd y Wasg yn ei flynyddoedd cynnar am natur genhadol ei waith, a welwyd fel rhan bwysig o adfywiad cenedlaethol mwy cyffredinol. Bellach, wedi dyfodiad y Wasg, ni fyddai angen i ysgolheigion fel Jones gymryd ffrwyth eu hymchwil dros y ffin i'w gyhoeddi: 'Y mae'r gwaith argraffu yn lân a thestlus, a phris y ddwy gyfrol yn syndod o isel, pan gofir natur y llyfr, ac yn llawer is na phris llyfrau eraill tebyg, sydd gennym yn ein meddwl, yn ymwneud â Chymru, a gyhoeddwyd yn ddiweddar gan weisg Seisnig. Dengys y gyfrol hon, yn wir, mai snobyddiaeth ydyw'r unig reswm tros i Gymro dysgedig fynd a'i waith i'w gyhoeddi i Loegr, a diolchwn, unwaith eto, i'r athro am sefyll mor bybyr ar y mater hwn.'⁵¹ Eir ymlaen i longyfarch yr awdur am roi portread mor ddifyr o hanes cyfnod y Tuduriaid yn ogystal â gwaith un o brif feirdd Cymraeg yr oes, a chesglir bod 'ysgolheictod cywrain a manwl y llyfr yn esiampl, a'r llafur caled

yma o waith y doethwr athrylithgar yn destun efelychiad i ni, efrydwy'r llên a hanes ein gwlad'.⁵²

Bu cyhoeddiadau cynnar y Wasg yn brawf nid yn unig nad oedd o reidrwydd angen i ysgolheigion o Gymru gyhoeddi ffrwyth eu hymchwil yn Lloegr bellach, ond hefyd bod modd iddynt wneud hynny trwy'r Gymraeg yn hytrach na'r Saesneg. Cyhoeddwyd un o lyfrau cynnar mwyaf arwyddocaol a dylanwadol y Wasg ym 1928, sef *Orgraff yr Iaith Gymraeg* gan aelod o'r Bwrdd, Syr John Morris-Jones.⁵³ Yn adolygiad *Y Traethodydd*, nodir mai canlyniad ymchwil a luniwyd yn rhannol ar gyfer Adroddiad Pwyllgor Cymdeithas yr Iaith Gymraeg mor bell yn ôl a 1893 oedd y llyfr hwn. Bu i un o bwyllgorau Prifysgol Cymru ailymweld â'r ymchwil yn y 1920au, a dengys yr adolygydd bod newid agwedd pwysig yn gwahanu'r ddau gyfnod: 'Llyfryn Saesneg oedd Adroddiad Pwyllgor Cymdeithas yr Iaith Gymraeg, ond llyfr Cymraeg yw Adroddiad Pwyllgor Llên Bwrdd Gwybodau Celtaidd Prifysgol Cymru – arwydd o gynnydd a dangosiad ein bod yn dyfod yn gallach'.⁵⁴ Gwnaeth y llyfr gyfraniad sylweddol at safoni Cymraeg ysgrifenedig a gosod patrwm a ddilynwyd yn gyffredinol yng ngweddill cyhoeddiadau'r Wasg yn yr ugeinfed ganrif. Diolcha'r adolygydd y Bwrdd am ddarparu'r fath wledd am dri swllt, a dywed bod y llyfr o ran ei ddiwyg a'i gynnwys yn 'bopeth a ellid ei ddymuno'. Aeth y Wasg ymlaen dros y degawdau nesaf i gyhoeddi lliaws o gyfrolau pwysig eraill ar ramadeg a chystrawen y Gymraeg, gan gynnwys *Y Treigladau a'u Cystrawen*, campwaith pum can tudalen T. J. Morgan ym 1952, ynghyd â chyfrolau ar nodweddion ieithoedd Celtaidd eraill, megis llawlyfrau Henry Lewis a Melville Richards ill dau ar Lydaweg Canol a Hen Wyddeleg.⁵⁵ Un o ymrwymadau pwysicaf y Wasg, ymhellach, oedd cyhoeddi Geiriadur Prifysgol Cymru, prosiect a gychwynwyd flwyddyn ynghynt ym 1921, ac ymddangosodd y rhan gyntaf ym 1950.

Derbyniodd y Wasg glod pellach yn adolygiad G. J. Williams o *Pedeir Keinc y Mabinogi* Ifor Williams, a gyhoeddwyd yn 1930, i'r *Traethodydd* yn Ionawr 1931. Roedd Griffith John Williams – awdur ac ysgolhaig pwysig ei hun, un o garfan ddisglair o gyn-ddisgyblion Ysgol Sir Tregaron, gydag Ambrose Bebb, Cassie Davies ac eraill, y datblygwyd eu doniau dan arweiniad cadarn y prifathro S. M.

Powell – yn argyhoeddedig ynglŷn â phwysigrwydd ei chyfraniad i'r diwylliant Cymraeg:

Y mae Gwasg Prifysgol Cymru eisoes wedi profi ei gwerth dirfawr i efrydiau Cymraeg drwy gyhoeddi, ynghyd â llawer o lyfrau eraill, lawlyfrau hylaw a rhagorol gan athrawon ac ysgolorion Cymraeg y Brifysgol. Nid esgynnodd ysgolheictod ym mhynciau'r iaith erioed cyn uchred ag yn y blynyddoedd diwethaf hyn, a cheir ei ffrwyth toreithiog yn yr amryw argraffiadau o hen lawysgrifau a llyfrau gyda rhagymadroddion a nodiadau diamheuol wych gan y gwŷr cymhwysaf i wneuthur hynny yn y wlad ac yn y byd.⁵⁶

Haerodd ymhellach nad oedd y Wasg yn ei blynyddoedd cynnar wedi cyhoeddi 'ddim gwell na'r gyfrol hon gan Ifor Williams, ac y mae'n amheus gennyf a ellid llawlyfr rhagorach a chyflawnach ar unrhyw destun mewn unrhyw iaith nag a roes fy nghyfaill y tro hwn.'⁵⁷

Nid cyd-ddigwyddiad mo'r ffaith i rai o awduron pwysicaf y Wasg yn ei dyddiau cynnar, fel Griffith John Williams, chwarae rhan bwysig hefyd yng ngenedigaeth a datblygiad Plaid Genedlaethol Cymru ym 1924, ddwy flynedd wedi i aelodau'r Bwrdd ymgynnull yn Llundain am y tro cyntaf. Cynhaliwyd un o gyfarfodydd cyntaf y Blaid, yn wir, yng nghartref Williams a'i wraig Elizabeth, ffigwr dylanwadol yn ei hawl ei hun, ym Mhenarth.⁵⁸ Roedd ymdrechion Bwrdd y Wasg i gryfhau ac ymestyn dysg trwy gyfrwng y Gymraeg yn rhan o'r un hyder newydd yn eu Cymreictod a arweiniodd ei genhedlaeth i sefydlu'r Blaid a throï'n gynyddol at genedlaetholdeb rhwng y rhyfeloedd byd. Dylid nodi, serch hynny, nad oedd holl aelodau'r Bwrdd yn gefnogwyr o'r mudiad newydd, fel y gwelwyd yn fwyaf amlwg a dadleuol yn yr ornest chwerw rhwng W. J. Gruffydd a Saunders Lewis dros etholaeth y Brifysgol yn San Steffan (roedd Lewis yn awdur cyfrol ei hunan i'r Wasg ychydig flynyddoedd ynghynt yn rhoi braslun o ddatblygiad llenyddiaeth Gymraeg).⁵⁹ Aeth Griffith John Williams ymlaen i gyhoeddi cyfrol arloesol ar fywyd a gwaith Iolo Morganwg i'r Wasg ym 1956, a fu'n sbardun i'r ailasesiad o'i yrfa liwgar a ddilynodd yn ail hanner yr ugeinfed ganrif.⁶⁰ Cyn hynny cyhoeddodd gyfrol swmpus i'r Wasg gydag Evan J. Jones ar ramadeg y beirdd

canoloesol, *Gramadegau'r Penceirddiaid*, ym 1934, golygiad o waith gramadegol Gruffydd Robert y bu'n ymchwilio yn y Biblioteca Ambrosina ym Milan ym 1939, a llyfr ar draddodiad llenyddol Morganwg ym 1948.⁶¹

T. H. Parry-Williams a'r Wasg

Ymunodd un o ddoniau mwyaf amryddawn ei genhedlaeth â Bwrdd y Wasg ym 1933, ac un a oedd ei safbwyntiau gwleidyddol ychydig yn llai amlwg, sef T. H. Parry-Williams, yng nghanol cyfnod pan wnaeth gyfraniad personol enfawr i ymestyn ei raglen gyhoeddi. Rhwng 1931 a 1937, cyhoeddwyd chwech o lyfrau dan ei enw ar ran y Bwrdd, gan gynnwys golygiadau o garolau Richard White, llawysgrif Richard Morris a'r canu rhydd cynnar; cyfrol gyflwyniadol ar *Elfennau Barddoniaeth* a restrwyd yng nghatalog cyntaf y Wasg fel llyfr addas i'w ddefnyddio mewn ysgolion; a golygiad o Lawysgrif Hendregadredd a gwblhawyd ganddo a Rhiannon Morris-Jones, gweddw Syr John Morris-Jones, yn dilyn marwolaeth y cawr o Fangor ym 1929.⁶² A hyn oll yn yr un cyfnod a gyfansoddodd rhai o'i ysgrifau creadigol mwyaf unigryw a rhai o'i gerddi mwyaf cofiadwy. Yn ôl adroddiad blynyddol y Bwrdd ym 1936, ymgais oedd *Elfennau Barddoniaeth* i 'egluro'n syml ryw-faint ar gelfyddyd barddoni – ei saernïaeth, a'i chreffftwaith.'⁶³

Roedd Parry-Williams yn aelod brwdfrydig o'r Bwrdd am gyfnod o bron i ddeugain mlynedd, a bu'n ymhél ag amrywiaeth o brosiectau gwahanol ar ei ran, gan gynnwys cydweithio yn y 1930au hwyr gyda Sefydliad y Bancwyr (*Institute of Bankers*) ar gyfrol arfaethedig yn ymdrin â'r Gymraeg ym myd busnes a bancio. Cadeiriodd is-bwyllgor i'r perwyl hwn a gasglodd 'that it considers the publication of a book on Commercial Welsh highly desirable'. Dylai gynnwys penodau ar yswiriant, y gyfraith, a chyfrifeg, yn ogystal â bancio oherwydd 'useful material, in the form of letters, notices, descriptive accounts, is available as illustrations of the use that is being made of Welsh in dealing with subjects of this kind'.⁶⁴ Dyma dystiolaeth bendant, felly, o'r gwaith arloesol a wnaeth aelodau Bwrdd y Wasg yn ei ddegawdau cynnar nid yn unig i

gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg yn y byd academiaidd, ond hefyd i adlewyrchu a meithrin ei ddefnydd ym mywyd pob dydd tu hwnt i goridorau colegau'r Brifysgol. Ffrwyth eu hymdrechion yn yr achos hwn oedd cyfrol S. Gwilly Davies, *Byd Busnes*, a gyhoeddwyd ym 1938.⁶⁵ Yn ei adolygiad byr o'r llyfr i'r *Llenor*, cadarnhaodd T. J. Morgan nad ymgeiswyr arholiadau banciau y byddai o ddefnydd iddynt yn unig gan fod 'pynciau a drinir sy'n cyffwrdd â phob un ohonom yn ei fywyd beunyddiol' yn nodwedd mor amlwg ohono.⁶⁶

Ehangu rhaglen gyhoeddi y Wasg

Bu pâr priod ifanc, sef Rhiannon a Mansel Davies, yn gyfrifol am lunio cyfrol ddiddorol yn y Gymraeg i'r Wasg mewn maes arall tu hwnt i lenyddiaeth neu hanes ym 1948. Rhan o gyfres 'Y Brifysgol a'r Werin' oedd eu *Hanes Datblygiad Gwyddoniaeth*, un o'r amrywiaeth eang o bynciau a drafodwyd yn y gyfres honno, ynghyd ag amaethyddiaeth, moeseg, gwleidyddiaeth, ac egwyddorion economeg.⁶⁷ Cyfarfu'r ddau, a oedd yn gyn-fyfrwyr o Goleg y Brifysgol yn Aberystwyth, fel athrawon yn Ysgol Dyffryn Ogwen, Bethesda yn y 1940au cynnar. Aeth Mansel Davies ymlaen i wneud cyfraniad academiaidd pwysig tu hwnt i Gymru ym myd biocemeg, yn ogystal ag ysgrifennu cyfrol am Fwdhaeth o safbwynt gwyddonol a adlewyrchai ei ddiddordeb dwfn yng nghrefyddau'r dwyrain.⁶⁸ Adolygwyd eu cyfrol yn ffafriol yng nghylchgrawn Cymdeithas Addysg y Gweithwyr ym 1950. Dadleua I. Elfyn Ellis iddynt dorri tir newydd yn yr ymdriniaeth â gwyddoniaeth trwy gyfrwng y Gymraeg: 'Nid gorchwyl hawdd o gwbl oedd cyfleu'r wybodaeth hon mewn Cymraeg dealladwy oblegid hyd yn hyn nid oes gennym eirfa gydnabyddedig ac adnabyddus'.⁶⁹ Llwyddodd yr awduron, serch hynny, i ymdrin ag arbrofion a damcaniaethau cewri gwyddonol, o Kepler, Galileo a Copernicus i rai mwy diweddar fel Rutherford a Madam Curie, yn eglur a difyr. Gallai fentro, o ganlyniad, y byddai 'galw am y llyfr hwn i Ddosbarthiadau Allanol o dan gyfarwyddyd athrawon hyddysg yn y maes'.⁷⁰

Tyfu o ddarlithiau a gyflwynodd yr awdur i ddsbarthiadau cyffelyb a wnaeth cyfrol arall yng nghyfres 'Y Brifysgol a'r Werin' a drafodir yn yr un adolygiad, sef *Hanes Cristionogaeth* gan Isaac Thomas, a gyhoeddwyd ym 1949. O dan olygyddiaeth graff David Thomas, cyhoeddwyd adolygiadau tebyg o lyfrau'r Wasg yn gyson ar dudalennau *Lleufer* o'i ail rifyn ym 1944 ymlaen. Adlewyrchai hynny'r ffaith i o leiaf rhai o lyfrau'r Wasg, fel y cyfrolau yng nghyfres 'Y Brifysgol a'r Werin', chwarae rhan bwysig ym mywyd diwylliannol darllenwyr cyffredinol o bob haenen a dosbarth cymdeithasol yng Nghymru, gan gynnwys gweithwyr yn ardal y chwareli yng Ngogledd Cymru a wnaeth gyfraniad ariannol mor hanfodol i sefydlu colegau Prifysgol Cymru yn y lle cyntaf. Yn wir, roedd cyhoeddiadau'r Wasg yn rhan bwysig o feithrin y berthynas agos a fodolai rhwng colegau'r Brifysgol a chymdeithasau fel Cymdeithas Addysg y Gweithwyr yn negawdau canol yr ugeinfed ganrif, ynghyd â'u dosbarthiadau allanol.

Roedd y Wasg eisoes wedi braenaru'r tir ar gyfer llyfr Rhiannon a Mansel Davies trwy gyhoeddi dwy gyfrol wyddonol yn y Gymraeg cyn yr Ail Ryfel Byd. Llyfr Gwilym Owen, *Athro mewn Ffiseg yng Ngholeg y Brifysgol, Aberystwyth, Mawr a Bach: sef Sêr ac Electronau*, oedd y cyntaf i ymddangos ym 1936.⁷¹ Yn ôl adroddiad blynyddol y Wasg ar gyfer y flwyddyn olynol, llyfr at wasanaeth plant ysgolion Cymru oedd yr ail, sef *Elfennau Cemeg*, Richard Owen Davies, aelod arall o staff y coleg yn Aberystwyth.⁷² Llawlyfr i gynorthwyo athrawon i ddysgu cemeg drwy'r Gymraeg oedd y gyfrol hon, ac arwydd arall o ymroddiad Bwrdd y Wasg i gryfhau addysg trwy gyfrwng y Gymraeg ar draws ystod eang o feysydd academiaidd.⁷³ Fel y dywed T. H. Parry-Williams yn y rhagair: 'Nid bychan o beth oedd llunio llawlyfr gwyddonol Cymraeg mor gryno'i gynnwys ac mor glir ei ymdriniaeth.'⁷⁴ Dywed Gwilym Owen yn y rhagair i'w lyfr yntau iddo ei ysgrifennu ar gyfer plant ysgol yn bennaf, ond gobeithiai y byddai o ddiddordeb ac yn ddealladwy i ddarllenwyr o bob math: 'Ceisir osgoi termau technegol, ac ni raid i neb ofni na all ddilyn y gwersi. Credaf nad oes odid air yn y llyfr nad yw ei ystyr yn eglur i bawb.'⁷⁵ Gallai ei ddarllen yn sicr gynnig profiad arallfydol, gwahanol iawn i lyfrau blaenorol y Wasg oherwydd ceir penodau ynddo yn disgrifio

'ymweliad dychmygol â'r lleuad' ac yn trafod 'posibilrwydd bywyd ar fydoedd eraill'. 'Pe gofynnid y cwestiwn hwn 300 o flynyddoedd yn ôl,' meddai'r awdur yn yr olaf o'r ddwy, 'fe fyddai perygl i ofynnydd y cwestiwn gael ei losgi wrth y stanc oherwydd iddo awgrymu syniad mor hereticaidd ac annuwiol. Awgrymu bod bydoedd eraill a chreaduriaid rhesymol (dynion?) arnynt!'.⁷⁶ Cynorthwyodd T. H. Parry-Williams iddo sicrhau cywirdeb yr iaith, a chyfrannodd un o'i gerddi i'w ddefnyddio fel cyflwyniad. Mae'n cloi gyda'r llinellau trawiadol: 'Nyni, yr hanner duwiau, llwch y llawr,/Ni wyddom sut i fesur bach na mawr'.⁷⁷

Cychwynwyd ar fenter arwyddocaol newydd ym myd efrydiau Cymraeg y flwyddyn ganlynol, sef penderfynu cyhoeddi cyfnodolyn athronyddol yn yr iaith Gymraeg am y tro cyntaf. Ymddangosodd rhifyn cyntaf *Efrydiau Athronyddol* ym 1938 gydag R. I. Aaron, darlithydd yng Ngholeg y Brifysgol yn Aberystwyth ac awdur llyfr arloesol ar hanes athroniaeth fodern yng nghyfes 'Y Brifysgol a'r Werin', yn ei olygu. Roedd safon academiaidd a deallusol aruchel y cylchgrawn ac amrywiaeth y pynciau a drafodwyd ynddo yn nodedig o'r rhifyn cyntaf lle ceir ysgrif Aaron ei hun ar John Locke ynghyd ag erthyglau ar 'Y Syniad o Werth', 'Canfod', a natur yr hunan ac adolygiadau o gyfrolau ar seicoleg drwy'r oesoedd ac athroniaeth y diwinydd dirfodol Rwsieg, Nicolas Berdyaev.⁷⁸ Cafodd athroniaeth ddwyreiniol sylw cyson ar dudalennau'r cylchgrawn o'i rifynnau cynnar hefyd, gyda'r ieithydd disglair o Gei Newydd, J. J. Jones, yn gwneud defnydd o'i adnabyddiaeth o'r ysgrythurau gwreiddiol Sansgrit i drafod 'Y Buddha a phroblem y drwg' ym 1941 ac i gymharu'r cysyniadau Bwdhaidd a Groegaidd allweddol o 'Dharma a Logos' ym 1946.⁷⁹

Ailargraffu'r Clasuron Cymraeg

Lluniodd R. T. Jenkins, hanesydd mwyaf disglair ei gyfnod a chyfaill a chymydog i W. J. Gruffydd yn ardal gardd-bentref Rhiwbeina ar gyrion Caerdydd, adroddiad diddorol pan ymunodd â'r Bwrdd ym 1937 ar y ddarpariaeth o glasuron y Gymraeg oedd ar gael i ddarllenwyr yn y cyfnod hwnnw, gyda golwg i'r Wasg

lenwi unrhyw fylchau amlwg.⁸⁰ Ddegawd ynghynt cyhoeddwyd y cyntaf o ddwy gyfrol Jenkins ei hun ar hanes y ddeunawfed a'r bedwaredd ganrif ar bymtheg yng Nghymru, sy'n parhau hyd heddiw i fod ymhlith y gweithiau mwyaf darllenadwy a difyr ar y cyfnod yn y Gymraeg.⁸¹ Y gyfrol gyntaf o'r ddwy oedd y cyntaf hefyd i gael ei chyhoeddi yng nghyfres 'Y Brifysgol a'r Werin' ym 1928, a bu'n llwyddiant poblogaidd yn ogystal â beirniadol o'r cychwyn. Nodir yng nghofnodion y Bwrdd ym Mehefin 1929 i chwe chant o'r ddwy fil o gopïau a argraffwyd gael eu gwerthu o fewn llai na chwe mis o'i chyhoeddi, ac archebwyd ailargraffiad o fil o gopïau yn fuan wedi hynny.⁸² Cofiai'r awdur ei hun y croeso a dderbyniodd y gyfrol yn ei hunangofiant: 'Gwerthodd John Evans yng Nghaerdydd *bedwar cant* o gopïau ar un Sadwrn; cyn imi gael cyfle i anadlu, 'roedd y llyfr yn ei drydydd argraffiad. 'Rwyf wedi hen golli golwg ar argraffiadau – y mae wyth neu naw ohonynt, a miloedd ar filoedd o gopïau wedi eu gwerthu; mi gredaf mai hwn, y cyntaf o'r gyfres i ddyfod allan, sydd eto ar y blaen yn y gwerthiant'.⁸³ Ond noda'n wylaidd hefyd mai'r ffaith iddo gael ei ddewis fel llyfr gosod ar gyfer Arholiadau'r Bwrdd Canol oedd yn rhannol gyfrifol am y gwerthiant syfrdanol, 'felly fe *orfu* ar laweroedd o'r plant druain ei brynu, heb unrhyw awydd!'⁸⁴ Beth bynnag am hynny, cafodd ei longyfarch yn adolygiad *Y Traethodydd* am roi cychwyn mor addas i'r gyfres: 'Teg casglu oddi wrth ddau air – Prifysgol a'r Werin – a geir yn nheidl y gyfres, y disgwylid dau beth – ymchwiliad trwyadl fel ffrwyth addysg Prifysgol, a rhoddi ffrwyth yr ymchwiliad mewn iaith seml, raenus, a ddeallir gan y bobl, a heb ormod o liw Prifysgol arni. Ac y mae awdur y gyfrol hon yn feistr ar y ddeubeth hyn'.⁸⁵

Dengys R. T. Jenkins yn ei adroddiad i'r Bwrdd, nad prinder fersiynau o'r clasuron Cymraeg yng nghyfnod ei ieuenctid tua dechrau'r ugeinfed ganrif oedd y brif broblem y ffurfiwyd y Wasg i'w goresgyn, ond safonau gwael y cyhoeddiadau hynny. Cofiai fod oddeutu pumdeg cyfrol ar gael yng 'Nghyfres y Fil' O. M. Edwards am bris mor isel â swllt neu bymtheg ceiniog yr un, a chyhoeddwy'r eraill megis Isaac Foulkes, Hughes a'i Fab a Spurrell yn cynnig argraffiadau rhad o weithiau Morgan Llwyd, Twm o'r Nant ac Ellis Wynne, ymhlith eraill.⁸⁶ Ond go symbol oedd y cyhoeddiadau

hynny oll o ran eu diwyg a'u safonau golygyddol yn ei dyb ef: 'To sum up, the Welsh reader who was not bothered by bad type, bad paper, and uncritical texts, could become very fairly acquainted with well-nigh the whole range of our post-medieval literature (at least), and that without spending very much'.⁸⁷

Erbyn y 1930au roedd y sefyllfa'n wahanol iawn, meddai, ac ychydig iawn o'r cyfresi a chyhoeddiadau uchod oedd ar gael i ddarllenwyr yng Nghymru beth bynnag fo'u gwendidau ysgolheigaid, wrth i'r farchnad lyfrau grebachu'n sylweddol yn ystod chwarter cyntaf yr ugeinfed ganrif. Canlyniad anochel hynny oedd: 'With all the activity at our colleges, with all the zeal with which a subject called "Welsh" is taught in the schools, undergraduates and schoolboys cannot count, *as they could count in 1900*, on being able to walk into the nearest bookshop and order this classic or that in a relatively cheap edition.'⁸⁸ Roedd copïau ohonynt yn dal i'w canfod mewn llyfrgelloedd Cymreig, ond dros y ffyn yn Lloegr, mewn cyferbyniad, dadleuodd nad oedd y cyhoedd darllengar yn fodlon i glasuron llenyddiaeth y genedl gael eu trin fel creiriau mewn amgueddfa. Y tueddiad peryglus a welai yng Nghymru oedd ystyried mai mater ar gyfer sylw academyddion ac ymchwilyr yn unig oedd llenyddiaeth a hanes y genedl. Gallai darllenwyr a myfyrwyr Seisnig ddibynnu ar gyfresi fel rhai 'Everyman', a gychwynwyd gan gwmni cyhoeddi J. M. Dent ym 1906, i gael gafael ar weithiau hyd yn oed nofelwyr a haneswyr gweddol anadnabyddus, ond yng Nghymru ychydig iawn o ddeunydd safonol oedd ar gael iddynt:

A lecturer in English history can confidently send his men out for cheap copies of these works; his confrere in Wales has to pass around his own copies (not without nervousness), or cajole the College Librarian to relax his guard over his strong-room for a short period. In the end, the men leave college with no books, and go through life depending on hastily-copied extracts⁸⁹

Diweddu'r annhegwch a'r anghyfartaledd uchod oedd un o'r prif gymhellion a arweiniodd Bwrdd y Wasg i gychwyn cyfresi fel un 'Y Brifysgol a'r Werin' y gwnaeth Jenkins gyfraniad mor bwysig iddi.

Canlyniad adroddiad R. T. Jenkins oedd cychwyn cyfres newydd o'r enw 'Llyfrau Deunaw', er mwyn sicrhau bod rhai o glasuron llenyddol mwyaf y Gymraeg ar gael i ddarllenwyr mewn argraffiadau safonol, rhesymol eu pris. Daw'r deunaw yn rheitl y gyfres o'r ffaith mai swllt a chwech (1/6), neu deunaw ceiniog, oedd pris y cyfrolau ynddi, swm llawer is na'r llyfrau arferol a gyhoeddai'r Wasg. Penderfynwyd yn ffurfiol i'w chomisiynu yng nghyfarfod y Bwrdd ym mis Tachwedd 1938, a gwna'r cofnod yn amlwg bod datblygiadau cyfoes ym myd cyhoeddi tu hwnt i'r ffin, yn enwedig dyfodiad cynyddol llyfrau clawr papur, deniadol wedi'u hysbrydoli, yn rhannol: 'The Board considered further the question of the publication of a series on the lines of the Penguin and Pelican books'.⁹⁰ Ymyrodd yr Ail Ryfel Byd i ryw raddau yn natblygiad y gyfres hon, ond unwaith i'r cyflenwad o bapur ddychwelyd i'w lefelau arferol yn dilyn y brwydro, aeth y gyfres o nerth i nerth. Cyhoeddwyd deuddeg cyfrol ynddi erbyn 1950, a nodwyd yn ei adroddiad blynyddol am y flwyddyn honno mai prif gyfraniad y Bwrdd ers diwedd y Rhyfel oedd 'the series known as "Llyfrau Deunaw", which offers the serious reader a wide variety of writing, in prose and verse, by standard authors ranging in date from the sixteenth to the nineteenth century. The main purpose of the series was to meet the criticism that the major and minor classics of Welsh literature were not obtainable except at great cost in time and money.'⁹¹ Bu ysgolheigion fel Thomas Parry, Glyn Ashton, D. Myrddin Lloyd ac eraill yn gyfrifol am olygu'r detholiadau yn y gyfres o waith ffigyrau mor amrywiol â Twm o'r Nant, Islwyn, Christmas Evans ac Eben Fardd. Fel y sylwodd Garfield Hughes yn ei adolygiad o ddwy o'r cyfrolau hyn ym 1948, 'Pennaf rhinwedd y *Llyfrau Deunaw*, efallai, yw dangos gwerth defnyddiau a ddiystyrir gennym yn rhy fynych o lawer, a datguddio defnyddiau eraill a gedwir rhagom gan amgylchiadau'.⁹²

Cyfres 'Y Brifysgol a'r Werin'

Nodwyd yn adroddiad blynyddol 1950 yn ogystal bod tair o gyfrolau newydd wedi cael eu hychwanegu at gyfres 'Y Brifysgol

a'r Werin', a thrwy hynny 'modern scholarship is brought to the general reader', nod y'i sefydlwyd yn benodol i'w hyrwyddo.⁹³ Gwelir yng nghofnodion y Bwrdd ar gyfer 1927, mai cais ar ran Bwrdd Efrydiau Allanol Prifysgol Cymru ar gyfer cyfrolau addas i'w defnyddio yn y dosbarthiadau a drefnai a arweiniodd at gyhwyn y gyfres hon.⁹⁴ Yng nghyfarfod y Bwrdd ar yr 2il o Fehefin y flwyddyn honno, felly, ystyriwyd rhestr a baratowyd ar eu cyfer o gyfrolau ac awduron arfaethedig yn y gyfres. Roedd cyfrolau ar feysydd academiaidd cymharol newydd fel cymdeithaseg a 'meddyleg' yn rhan o'r gyfres o ddeg cyfrol hyn, ynghyd â llyfrau ar foesege, addysg, economeg, a hanes Cymru. Ymhlith yr awduron a awgrymwyd roedd enwau fel A. H. Dodd, yr hanesydd o Goleg y Brifysgol ym Mangor, a David Phillips, prifathro goleuedig Coleg y Bala. Adlewyrchir cefndir a chynulleidfia ddewisedig y gyfres yn y ffaith i R. I. Aaron gyflwyno'i gyfrol yntau ar *Hanes Athroniaeth: o Descartes i Hegel* 'i aelodau fy nosbarthiadau allanol, Cwmllynfell 1926–1930, Felinfoel 1930–1932'.⁹⁵ Cyfrol Aaron oedd y ddeuddegfed i ymddangos yn y gyfres mewn cyfnod o lai na phum mlynedd, sy'n dangos pa mor gyflym y llwyddwyd i gwrdd â'r angen ar gyfer adnoddau o'r fath.

Erbyn i'w gampwaith ar athroniaeth fodern, llyfr sy'n parhau'n werthfawr tu hwnt heddiw, gael ei gyhoeddi ym 1932 roedd cyfrolau fel rhai R. T. Jenkins ar hanes Cymru yn y ddeunawfed ganrif ac un Iorwerth C. Peate, *Cymru a'i Phobl*, eisoes wedi gosod y gyfres ar seiliau cadarn ac wedi sicrhau ei phoblogrwydd ymhlith darllenwyr.⁹⁶ Gwnaeth J. R. Jones, er enghraifft, ddefnydd helaeth o gyfrol Aaron yn ystod ei gyfnod fel myfyriwr athroniaeth yn Aberystwyth, a cheir ambell sylw difyr ganddo ar ymyl y dudalen yn y copi a ddaeth i'w eiddo ym 1933. Tanlinellodd rannau o'r adrannau ar syniadau Kant a Hegel yn arbennig o drwm, ac yn y bennod ar athroniaeth Descartes etyb cwestiwn Aaron, a all yr unigolyn 'drwy ewyllysio fy ngorfodi fy hun i gredu unrhyw beth?' drwy nodi: 'Nid ewyllysio yn yr ystyr o orfodi fy hun i gredu peth na ddeallaf ond o *fethu* neu *beidio ymatal rhag* credu yr hyn ond gwir berffaith glir i mi'.⁹⁷ Yn nodiadau'r Bwrdd ar ddatblygiad y gyfres yn Ionawr 1928 cyn i'r gyfrol gyntaf gael ei chyhoeddi yn ddiweddarach y flwyddyn honno, nodir mai meithrin diddordeb

y darllynydd mewn amrywiaeth o bynciau a thanio ei ddychymyg oedd ei nod: 'The fundamental objective to be aimed at throughout is the awakening of interest and the formation of a habit of mind rather than the imparting of a series of facts, however important they may be'.⁹⁸

Llwyddodd y cyfrolau a gyhoeddwyd yn y gyfres hon hefyd i grynhoi'r ymchwil fanwl, arloesol ym meysydd hanes a llenyddiaeth Cymru y bu ysgolheigion fel Henry Lewis yn gyfrifol amdani yn negawdau cynnar yr ugeinfed ganrif mewn modd hylaw, dealladwy i gynulleidfa eang. Cydnebydd Griffith John Williams bwysigrwydd y gyfres yn hynny o beth yn ei adolygiad o gyfrol Lewis ar *Datblygiad yr Iaith Gymraeg*, y chweched yn y gyfres, i'r *Llenor* ym 1931. 'Ymdriniwyd â gwahanol agweddau ar y pwnc mewn llyfrau a chylchgronau,' meddai 'ond dyma'r waith gyntaf i neb geisio rhoddi'r wybodaeth a gasglwyd gan ysgolheigion Cymraeg yn ystod yr hanner can mlynedd diwethaf mewn llyfr y gallai'r darllynydd cyffredin a'r myfyriwr sy'n dechrau astudio'r iaith Gymraeg yn y Coleg ei ddeall a'i fwynhau.' Cyn hynny, bu prinder adnoddau addas i'w cynnig i fyfyrwyr Cymraeg yn broblem amlwg, ond bellach 'nid rhaid i neb achwyn mwyach am hyn' gan fod cyfrol Lewis yr un mor safonol ag unrhyw beth oedd ar gael i fyfyrwyr Saesneg neu Ffrangeg.⁹⁹

Bu cyfrolau fel rhai Henry Lewis, R. I. Aaron ac R. T. Jenkins yng nghyfres 'Y Brifysgol a'r Werin' o gymorth amhrisiadwy i gynyddu gwerthiant llyfrau'r Wasg yn y 1930au cynnar. O ganlyniad, cynyddodd y cyfanswm a werthwyd ym 1932/33 i 20,265, ac roedd y stoc a gadwyd yng Nghofrestrfa'r Brifysgol ym Mharc Cathays, Caerdydd wedi codi i 93,797 o gyfrolau wedi eu rhwymo erbyn hynny.¹⁰⁰ Pwysleisiwyd yn rheolaidd, serch hynny, yng nghofnodion Bwrdd y Wasg mai darparu'r adnoddau angenrheidiol ar gyfer yr astudiaeth o bynciau trwy'r Gymraeg yn y Brifysgol oedd ei phrif nod, yn hytrach nag unrhyw gymhelliad ariannol. Roedd adroddiad a luniodd y Bwrdd Academiaidd ym 1928 ar gyflwr astudiaethau Cymreig o fewn y Brifysgol wedi amlinellu'r anghenion hynny yn glir. Yn yr un flwyddyn, gofynnodd Bwrdd y Wasg am grant ychwanegol o Drysorlys y Wladwriaeth (*H. M. Treasury*) er mwyn cyhoeddi llyfrau Cymraeg i gwrdd â'r angen

dros y pum mlynedd ddilynol. Lluniwyd rhestr o'r gweithiau arfaethedig mewn pum categori gyda chydweithrediad y Bwrdd Astudiaethau Celtaidd a fyddai'n cynrychioli 'a programme of work which, if carried out, would be epoch-making in its influence on Welsh culture and education'.¹⁰¹

Gweithiau yr oedd myfyrwyr a astudiaï'r Gymraeg eu hangen ar frys oedd y categori cyntaf, gan gynnwys detholiad o waith y Gogynfeirdd ac argraffiadau beirniadol o Bedair Cainc y Mabinogi, y canu crefyddol cynnar, a'r Gododdin. Adargraffiadau o destunau clasurol Cymraeg fel *Llyfr y Tri Aderyn* (1653), *Drych y Prif Oesoedd* (1716) a *Gweledigaethau'r Bardd Cwsc* (1703) oedd yr ail gategori, a gweithiau cyffredinol ar hanes a daearyddiaeth Cymru oedd y trydydd, fel atlas hanesyddol i'w ddefnyddio mewn ysgolion. Llyfrau i'w defnyddio ym myd addysg oedolion ac mewn ysgolion oedd y ddau gategori olaf o'r rhestr. Derbyniwyd grant arbennig o £500 i'r diben hwn, ac yn y blynyddoedd dilynol cyhoeddwyd amryw o'r llyfrau perthnasol, megis golygiadau Stephen J. Williams o'r hen destunau *Ffordd y Brawd Odrig* ac *Ystoria de Carolo Magno*.¹⁰² Nodir gyda boddhad yn adroddiad blynyddol 1931 bod y grant wedi galluogi'r Bwrdd 'to carry out a substantial portion of its programme but there still remains a great deal to be done, and the Board trusts that the Council will bear this in mind in allocating grants out of new money.' Dadleuir, ymhellach, na ellid disgrifio unrhyw o'r llyfrau a gyhoeddai'r Bwrdd fel 'best sellers', a bod rhaid bodloni o ganlyniad gyda ffigyrau gwerthiant cymharol fach ar eu cyfer, yn enwedig y rhai Cymraeg, 'which though indispensable for students are bought by very few outside the circle of University students'.¹⁰³

*Datblygiadau yn y 1930au a chyhoeddi
ym meysydd newydd*

Erbyn adroddiad blynyddol 1934, gallai'r Bwrdd gadarnhau bod gwaith y Wasg wedi parhau tuag at bedwar prif nod sef: cyhoeddi testunau Cymraeg ar gyfer defnydd myfyrwyr prifysgol; cyhoeddi llyfrau yn y Gymraeg ar gyfer y cyhoedd darllengar wedi'u modelu

ar yr *Home University Library of Modern Knowledge*; cyhoeddi gweithiau ymchwil ym maes hanes Cymru; a chyhoeddi cyfeirlyfrau safonol ('readers') Cymraeg ar gyfer ysgolion.¹⁰⁴ Teimlai'r Bwrdd yn fodlon 'that its policy is a sound one, both from the University point of view, and from the point of view of the preservation of the Welsh language'.¹⁰⁵ Yn adroddiad blynyddol olaf cyfnod Gilbert Monmouth yn cadeirio'r Bwrdd ym 1939, cofnodwyd bod y Wasg wedi cyhoeddi dau gant a hanner o gyfrolau ers ei sefydlu bron i ddwy ddegawd ynghynt. Cyfarfu gant o weithiau dros y cyfnod hwnnw, ac W. J. Gruffydd a T. Franklin Sibly oedd yr unig ddau o'r saith a ddaeth at ei gilydd yn Llundain ym 1922 i barhau'n aelodau.¹⁰⁶ Yn wir, bu W. J. Gruffydd yn aelod o'r Bwrdd hyd ei farwolaeth ym 1953.

Datblygiad arall pwysig yn hanes y Wasg a welwyd yn y 1930au oedd penderfyniad ffurfiol y Bwrdd i ymestyn ei raglen gyhoeddi i gynnwys pynciau tu hwnt i rai Cymraeg a Chymreig yn unig. Fel y gwelwyd eisoes, roedd y Wasg wedi cyhoeddi ambell lyfr ym meysydd fel y Clasuron yn ystod y 1920au, ond canolbwyntiwyd y mwyafrif o'i hegni ar gyhoeddi llyfrau newydd ysgolheigaidd yn y Gymraeg ar lenyddiaeth a hanes Cymru, neu adargraffiadau o glasuron yr iaith. Ond o 1934 ymlaen, derbyniodd y Bwrdd grant ychwanegol o £100 y flwyddyn fel man cychwyn i gyhoeddi gweithiau ymchwil aelodau o staff Prifysgol Cymru ar bynciau eraill. Fel yr eglurir yn adroddiad blynyddol 1938, pan sefydlwyd y Wasg gyntaf, cyhoeddi ar bynciau Cymraeg a Chymreig oedd yr unig ddewis a wynebair, 'because if the Press Board did not accept responsibility for publishing works of research relating to Wales, no other body was likely to perform this work in its place'.¹⁰⁷ Ond roedd hynny wedi arwain at fwlch amlwg o ran cyhoeddi'r cyfan o'r ymchwil cyffrous a gynhyrchwyd o fewn Prifysgol Cymru: 'It was manifest, however, that the original work performed by members of the University was not confined to the field of Welsh or allied Celtic studies, and it was essential that arrangements should be made for its publication'.¹⁰⁸ Gwelir canlyniadau'r newid polisi hwn, a'r grant cysylltiedig a gynyddodd yn raddol yn ystod y 1930au, yn yr ystadegau ynglŷn â llyfrau'r Wasg a gofnodwyd yn adroddiad blynyddol cyntaf y 1950au.

Cyhoeddwyd 52 o lyfrau yn yr hanner degawd rhwng diwedd yr Ail Ryfel Byd a 1950, pymtheg ar hugain ohonynt yn y Gymraeg, deg yn Saesneg a saith yn ddwyieithog.¹⁰⁹ Cadarnhawyd yn adroddiad blynyddol cyntaf y cyfnod wedi'r Ail Ryfel Byd mai cyhoeddi ysgolheictod Cymraeg a Chymreig oedd prif flaenoriaeth y Wasg o hyd, gyda golwg i ehangu ei rhaglen ym meysydd eraill hefyd: 'The Board will continue with its policy of regarding the publication of works of scholarship relating to Wales as its special responsibility, and will also undertake, or assist, in greater measure, the publication of similar work in fields of study other than those relating to Wales.'¹¹⁰

O dan arweinyddiaeth fentrus Ifor L. Evans, felly, ymestynnodd y Wasg rychwant ei chyhoeddiadau i gynnwys llyfrau ar agweddau amrywiol o athroniaeth a chrefydd ddwyreiniol yn ogystal ag Ewropeaidd. Ym 1942, er enghraifft, cyhoeddwyd astudiaeth fer H. H. Rowley, a oedd yn ddarlithydd mewn crefydd gymharol ym Mangor, *Submission in Suffering: A Comparative Study of Eastern Thought*.¹¹¹ Rhyddhaodd y Wasg hefyd lyfrau ar athroniaeth Ffrengig ac Almaeneg modern, gan gynnwys cyfrolau Ronald Grimsley, aelod arall o staff darlithio Coleg y Brifysgol ym Mangor, ar waith Jean-Jacques Rousseau a syniadau'r dirfodwyr fel Jean-Paul Sartre a Gabriel Marcel pan oedd eu dylanwad yn ei anterth yn y 1950au.¹¹² Cyhoeddwyd llyfryn o'r enw *Detholiad o Lyfrau* yn catalogio'r mwyafrif o gyhoeddiadau'r Wasg dros y deg ar hugain mlynedd flaenorol wedi diwedd cyfnod Ifor L. Evans fel cadeirydd ym 1952, sy'n amlygu'r amrywiaeth a nodweddai ei rhaglen erbyn hynny. Ceir cyfrolau ar *Welsh Furniture* a *The English Theatre in Wales* ynghyd â chyfrolau ar *Hanes Canu Cynulleidfaol Cymru* a *Gwybod am Dduw*, llyfr diweddar yr athronydd Hywel D. Lewis yn cynnig 'cip ar rai o'r prif dueddiadau'r meddwl crefyddol heddiw'.¹¹³ Bu'r Wasg yn gyfrifol hefyd am gyhoeddi cyfres o gyfieithiadau newydd o'r Ysgrythurau yn y Gymraeg, yn ogystal ag amrywiaeth o lyfrau ysgol fel Llyfrau Darllen Prifysgol Cymru, cyfres o Lyfrau Canu Newydd a llyfrau ar hwiangerddi ac alawon o Gymru.

Problemau

Rhag i'r drafodaeth hon roi darlun rhy unllygeidiog o flynyddoedd cynnar y Wasg fel cyfnod o dwf diwrthwynebiad, dylid nodi i'r Bwrdd ddatgan o'r cyfarfodydd cyntaf pa mor anodd oedd yr her ariannol a wynebai, ac i'r problemau cyllido hyn gael eu crybwyll yn rheolaidd trwy gydol y cyfnod dan sylw. Mynegodd asiant y Wasg, Ben Jones, ei rwystredigaeth ynglŷn ag amharodrwydd llyfrwerthwyr mawr fel W. H. Smith i werthu'r cyfrolau heb gymryd gostyngiad sylweddol, a cheir sawl apêl ar ran y Bwrdd yn ei adroddiadau blynyddol i Lys y Brifysgol gynyddu'r grant blynyddol a gynigiai i dalu'r costau uchel oedd ynghlwm wrth redeg cyhoeddwr academaidd.¹¹⁴ Mor gynnar ag adroddiad 1923, felly, ceir y sylw canlynol: 'At present the work of the Board is restricted by lack of funds, and it is hoped that the present small grant of the University Council will be supplemented from other sources.'¹¹⁵ Mae'n wir i'r grant hwn godi o £250 y flwyddyn i £500 ym 1925, ac eto i £1,000 erbyn diwedd 1936, ond ni fu'r cynnydd yn ddigonol i sicrhau nad oedd gwasgfa ariannol yn pwyso ar y Bwrdd trwy gydol y cyfnod wrth i gostau cyhoeddi gynyddu'n gydamserol.¹¹⁶

Gallai rhai o awduron mwyaf adnabyddus y Wasg hefyd leisio eu hanfodlonrwydd gyda'i safonau o dro i dro. Cawn argraff o gymeriad Gwenallt, a allai fod yn danllyd ar adegau, mewn llythyr a anfonodd y bardd mawr ac ysgolhaig at Fwrdd y Wasg ym 1952 wedi iddo dderbyn y profleuni diweddaraf o'i lyfr ar waith enwog Islwyn, 'Y Storm', yn rhyfeddu ynglŷn ag arafwch y broses. 'R wyf yn siomedig iawn na fyddai wedi dod o'r Wasg ymhell cyn hyn. Gresyn oedd rhoi'r gwaith i Wasg mor anfedrus.'¹¹⁷ Golygai cyfrif-oldebau mynych awduron eraill blaenllaw na allasent ateb galwadau'r Bwrdd am eu gwaith bob tro. Gorfu i Saunders Lewis ysgrifennu at gadeirydd y Bwrdd ym 1949 i wrthod ei gynnig iddo gyfieithu un o ddramâu Molière fel rhan o adfywio Cyfres y Werin: 'Diolch i chwi am eich llythyr ar ran Bwrdd y Wasg. Ond gan fod arnoch eisiau cyfieithiad o'r Molière yn *gynnar*, ofnaf na fedraf addo hynny, gan mai prin yw'r hamdden a ddyry fy ngwaith newyddiadurol imi.'¹¹⁸ Tua'r un adeg, gwrthododd Emrys Evans, Is-Ganghellor Coleg y Brifysgol ym Mangor ar y pryd, gynnig y

cadeirydd iddo baratoi cyfieithiad o'r *Odyseia*: 'I am very sorry, but I really cannot promise to "do" Homer. He has never been much up my street anyhow.'¹¹⁹ Roedd wrthi'n gweithio beth bynnag ar ei gyfieithiad o waith Platon, *Y Wladwriaeth*, a gyhoeddodd y Wasg ym 1956, yn dilyn pedwar trosiad arall ganddo o weithiau'r athronydd Groegaid.¹²⁰ Atebodd W. J. Gruffydd y cynnig i fod yn rhan o'r gyfres ar ei newydd wedd yn fwy gobeithiol, a chynigiodd gwrdd â'r cadeirydd yng ngwesty'r *Athenaeum* yn Llundain i drafod y mater ymhellach. Amheuai serch hynny a oedd teitl gwreiddiol y gyfres yn un addas: 'Ie, amser go obeithiol oedd hi pan ddechreuwyd Cyfres y Werin; ni fedrais erioed ddeall er hynny paham "y Werin". Mae arnaf ofn y bydd yn rhaid inni alw'r gyfres nesaf yn Gyfres yr Intelligentsia neu yn Gymraeg, *Cyfres y Cymry Deallus!*'¹²¹

Casgliad

Er gwaethaf yr anawsterau uchod, erbyn i Emrys Evans gymryd yr awenau fel cadeirydd y Bwrdd ym 1952, gydag Elwyn Davies fel ysgrifennydd ers ymddeoliad Jenkin James ym 1944, gallai deimlo'n hyderus yn gyffredinol bod y Wasg wedi sefydlu ei hun yn ddi-gwestiwn fel prif gyhoeddwr academiaidd Cymru yn ystod hanner cyntaf yr ugeinfed ganrif.¹²² Roedd yr hyder newydd yn eu Cymreictod a'r parodrwydd i'w arddangos ym mywyd academiaidd a chyhoeddus y bu'r Wasg yn rhan bwysig o'i feithrin dros y cyfnod hwnnw yn amlwg yn sgysiael aelodau'r Bwrdd, yn ôl tystiolaeth T. H. Parry-Williams am flynyddoedd Emrys Evans wrth y llyw: 'Gŵr gwahanol iawn i'w ragflaenydd, hen law ar gadeirio, a hynny'n bwylllog oddefgar; gŵr cyfarwydd â chefnid llawer o'r pynciau a drafodid. Erbyn hyn, yn amlach na pheidio, yr oedd yr aelodau a fyddai'n bresennol, yn athrawon Cymraeg neu'n Gymraegwyr, a Chymraeg fyddai iaith y trafodaethau fel rheol.'¹²³ Aeth y Wasg ymlaen i gyhoeddi amrywiaeth o gyfrolau arloesol a hanfodol yn y Gymraeg ac ym meysydd academiaidd eraill o'r 1950au hyd heddiw, gyda'r cyfarwyddwr cyntaf, R. Brinley Jones, yn cael ei apwyntio yn y 1960au hwyr a'r swyddfa gyntaf benodol ar gyfer ei defnydd yn cael ei hagar yn hen ardal dociau Caerdydd

yn fuan wedi hynny. Fe'i ddilynwyd gan John Rhys, Ned Thomas, Susan Jenkins, Ashley Drake, Helgard Krause ac yn olaf, Natalie Williams, cyfarwyddwr cyfredol y Wasg. Yn 2018 dychwelodd y Wasg i'w chartref gwreiddiol yn adeilad Cofrestrfa'r Brifysgol ym Mharc Cathays, Caerdydd, man priodol iddi barhau'r gwaith arloesol o hybu a rhoi llwyfan i astudiaethau academiaidd Cymraeg a Chymreig y bu sefydlu'r Brifysgol a'i chyhoeddwr yn rhan mor allweddol o'i ddatblygu a'i wireddu yn hanner cyntaf yr ugeinfed ganrif.

Nodiadau

- ¹ Gweler ysgrif Brynley F. Roberts, 'Scholarly Publishing, 1820–1922', yn Philip Henry Jones ac Eiluned Rees (goln), *A Nation and its Books: A History of the Book in Wales* (Aberystwyth: Llyfrgell Genedlaethol Cymru, 1998), tt. 221–36.
- ² Saunders Lewis, *Williams Pantycelyn* (Llundain: Foyle's, 1927); D. Miall Edwards, *Crefydd a Diwylliant* (Wrecsam: Hughes a'i Fab, 1934).
- ³ Stephen J. Williams, 'Yr Athro (1)', *Y Llenor, Cyfrol Goffa William John Gruffydd* (1955), 24.
- ⁴ Dyfynnwyd yn T. H. Parry-Williams, *Bwrdd Gwasg Prifysgol Cymru: Rhai Hen Atgofion* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1972), t. 9.
- ⁵ Parry-Williams, *Bwrdd Gwasg Prifysgol Cymru*, t. 7.
- ⁶ Parry-Williams, *Bwrdd Gwasg Prifysgol Cymru*, t. 8.
- ⁷ Yn ddiweddarach yn ystod y cyfnod dan sylw, ymunodd ysgolheigion blaenllaw eraill fel J. E. Lloyd, J. R. Jones, Ifor Williams, Griffith John Williams, E. G. Bowen a Thomas Parry â'r Bwrdd. Gweler Helen Fulton, 'University of Wales Press', yn Jonathan Rose a Patricia J. Anderson (goln), *British Literary Publishing Houses, 1881–1965* (Llundain: Gale Research, 1991), tt. 330–333. Bu Lloyd Kenyon (1864–1927), 4ydd Arglwydd Kenyon, yn Ddirprwy-Ganghellor Prifysgol Cymru rhwng 1920 a 1927.
- ⁸ Archif Gwasg Prifysgol Cymru, Cofrestrfa Prifysgol Cymru, Caerdydd (AGPC o hyn ymlaen). Cofnodion y Bwrdd, 6 Ionawr 1922.
- ⁹ AGPC, Cofnodion y Bwrdd, 17 Chwefror 1922.
- ¹⁰ AGPC, 'Preliminary Memorandum on the powers and duties of the University Press Board', Cofnodion y Bwrdd, 17 Chwefror 1922.
- ¹¹ AGPC, Cofnodion y Bwrdd, 17 Chwefror 1922.
- ¹² AGPC, 'Preliminary Memorandum'
- ¹³ AGPC, 'Preliminary Memorandum'

- ¹⁴ Thomas Roberts ac Ifor Williams, *The Poetical Works of Dafydd Nanmor* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1923). Seiliwyd y gwaith hwn ar draethawd MA Thomas Roberts a gyflwynodd i Goleg y Brifysgol ym Mangor ym 1909. Bu farw Roberts yn y Rhyfel Mawr ym 1918 a chafodd ei waith ei olygu a'i baratoi i'w gyhoeddi gan Ifor Williams.
- ¹⁵ AGPC, Annual Report 1923.
- ¹⁶ T. Gwynn Jones, *Gwaith Tudur Aled* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1926).
- ¹⁷ AGPC, Cofnodion y Bwrdd, 18 Mehefin 1926.
- ¹⁸ AGPC, Cofnodion y Bwrdd, 18 Chwefror 1926.
- ¹⁹ AGPC, Cofnodion y Bwrdd, 20 Gorffennaf 1927.
- ²⁰ W. J. Gruffydd, *Math vab Mathonwy: an Inquiry into the Origins and Development of the Fourth Branch of the Mabinogi with the Text and a Translation* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1928); J. Lloyd-Jones, *Geirfa Barddoniaeth Gymnar Gymraeg* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1931).
- ²¹ Cyhoeddwyd wythfed cyfrol wedi ei farwolaeth, ym 1963.
- ²² Thomas Parry, 'John Lloyd-Jones, 1885–1956' yn y casgliad o'i erthyglau, *Amryw Bethau* (Dinbych: Gwasg Gee, 1996), t. 125.
- ²³ Kathleen Freeman, *The Work and Life of Solon: with a Translation of his Poems* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1926).
- ²⁴ AGPC, Annual Report 1926.
- ²⁵ G. Nesta Evans, *Social Life in Mid-Eighteenth Century Anglesey* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1936); *Religion and Politics in Mid-Eighteenth Century Anglesey* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1953).
- ²⁶ T. Hudson-Williams, *Early Greek Elegy: The Elegiac Fragments of Callinus, Archilochus, Mimnermus, Tyrtaeus, Solon, Xenophanes, & Others* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1926).
- ²⁷ AGPC, Cofnodion y Bwrdd, 6 Mai 1924.
- ²⁸ Robert Bridges, *The Spirit of Man: An Anthology in English and French from the Philosophers and Poets* (Llundain: Longmans Green & Co, 1916).
- ²⁹ AGPC, Cofnodion y Bwrdd, 6 Mai 1924.
- ³⁰ Henry Lewis, 'Yr Angof Mawr', *Y Llenor*, II/2 (Haf 1923), 122–3.
- ³¹ AGPC, Cofnodion y Bwrdd, 28 Chwefror 1929. Nodir i Jones gychwyn yn ei swydd ym mis Awst 1928.
- ³² AGPC, 28 Chwefror 1929.
- ³³ AGPC, 28 Chwefror 1929.
- ³⁴ AGPC, Cofnodion y Bwrdd, 5 Mehefin 1929.
- ³⁵ AGPC, Cofnodion y Bwrdd, 1 Tachwedd 1929.
- ³⁶ AGPC, Cofnodion y Bwrdd, 15 Gorffennaf 1930.
- ³⁷ AGPC, Cofnodion y Bwrdd, 20 Tachwedd 1936.
- ³⁸ AGPC, Cofnodion y Bwrdd, 30 Medi 1925.

- ³⁹ AGPC, Cofnodion y Bwrdd, 'Appendix I: A Series of World Classics in Welsh', 11 Tachwedd 1949. Ceir cyfieithiadau o waith Ibsen, Goethe, Gogol, Descartes, Schiller, Maupassant, Molière, Martin Luther ac eraill yn y gyfres wreiddiol.
- ⁴⁰ Parry-Williams, *Bwrdd Gwasg Prifysgol Cymru*, t. 14.
- ⁴¹ Parry-Williams, *Bwrdd Gwasg Prifysgol Cymru*, t. 13.
- ⁴² Gweler, er enghraifft, ysgrifau Alwyn D. Rees, *Adfeilion: Sylwadau ar Argyfwng ein Dyddiau Ni* (Llandybie, 1943) a nofel fer, fentrus Kate Bosse-Griffiths, *Anesmwyth Hoen* (Llandybie, 1941) yng nghyfres Llyfrau'r Dryw; dyddiadur rhyfel Caradog Prichard, '*R wyf innau'n filwr bychan*' (Dinbych: Gwasg Gee, 1943) ac atgofion y heddychwyr mawr George M. Ll. Davies, *Pererindod Heddwch* (Dinbych: Gwasg Gee, 1945) yng nghyfres Llyfrau Pawb; nofel arbennig Elena Puw Morgan, *Y Graith* (Aberystwyth, 1943) a chasgliad eclectig D. Tecwyn Lloyd, *Erthyglau Beirniadol* (Aberystwyth, 1946) yn y Clwb Llyfrau Cymreig.
- ⁴³ *Hwnt ac Yma* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1940), t. 5.
- ⁴⁴ D. Emrys Evans ac R. T. Jenkins (goln), *Llais Rhyddid* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1941), t. 6.
- ⁴⁵ *Y Flwyddyn yng Nghymru* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1943), t. 8.
- ⁴⁶ Stephen J. Williams a J. Enoch Powell, *Cyfreithiau Hywel Dda yn ôl Llyfr Blegywryd (Dull Dyfed): Argraffiad Beirniadol ac Eglurhaol* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1942).
- ⁴⁷ Stephen J. Williams, *Elfennau Gramadeg Cymraeg* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1959).
- ⁴⁸ Gweler yn arbennig Kevin Jackson, *Constellation of Genius, 1922: Modernism Year One* (Llundain: Hutchinson, 2012) ar gyfer arwyddocâd ehangach blwyddyn sefydlu'r Wasg. Ym maes athroniaeth, cyhoeddwyd llyfr chwyldroadol Ludwig Wittgenstein, *Tractatus Logico-Philosophicus* (Llundain: Kegan Paul, 1922) yn Saesneg ym 1922 hefyd, blwyddyn wedi'r fersiwn Almaeneg wreiddiol, *Logisch-Philosophische Abhandlung*. Ceir dadansoddiad meistrrolgar o ddylanwad y cyhoeddiad hwn, ynghyd â digwyddiadau eraill y flwyddyn, yng nghyfrrol Michael North, *Reading 1922: A Return to the Scene of the Modern* (Rhydychen: Oxford University Press, 1999).
- ⁴⁹ AGPC, Cofnodion y Bwrdd, 1 Mehefin 1927 a hefyd 2 Rhagfyr 1927.
- ⁵⁰ AGPC, Cofnodion y Bwrdd, 12 Chwefror 1935.
- ⁵¹ 'Tudur Aled a'i Gyfnod', *Cymru*, LXXII/426 (Ionawr 1927), 1.
- ⁵² 'Tudur Aled a'i Gyfnod', 3.
- ⁵³ John Morris-Jones, *Orgraff yr Iaith Gymraeg* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1928).
- ⁵⁴ *Y Traethodydd*, XVII (Ionawr 1929), 62.

- ⁵⁵ T. J. Morgan, *Y Treigladau a'u Cystrawen* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1952); Henry Lewis, *Llawlyfr Llydaweg Canol: Argraffiad Newydd* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1935); Melville Richards, *Llawlyfr Hen Wyddeleg* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1935). Cyhoeddwyd yr argraffiad gwreiddiol o lyfr Henry Lewis gan gwmni Stephens a George, Aberdâr, ym 1922.
- ⁵⁶ G. J. Williams, 'Pedeir Keinc y Mabinogi', *Y Traethodydd*, XIX (Ionawr 1931), 48.
- ⁵⁷ 'Pedeir Keinc y Mabinogi', 48.
- ⁵⁸ Gweler Richard Wyn Jones, *Rhoi Cymru'n Gyntaf: Syniadaeth Plaid Cymru, Cyfrol 1* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 2007) ar gyfer yr ym-driniaeth fwyaf deallus â hanes y Blaid.
- ⁵⁹ Saunders Lewis, *Braslun o Hanes Llenyddiaeth Gymraeg: 1* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1932). Gweler hefyd T. Robin Chapman, *W. J. Gruffydd* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1993) ar gyfer hanes y frwydr dros etholaeth Prifysgol Cymru ym 1943, tt. 176–82.
- ⁶⁰ G. J. Williams, *Iolo Morganwg: Y Gyfrol Gyntaf* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1956). Bu Williams farw ym 1963 cyn cwblhau ail gyfrol ar fywyd Iolo.
- ⁶¹ G. J. Williams a E. J. Jones, *Gramadegau'r Penceirddiaid* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1934); G. J. Williams, *Gramadeg Gruffydd Robert* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1939) a *Traddodiad Llenyddol Morgannwg* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1948).
- ⁶² T. H. Parry-Williams, *Carolau Richard White* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1931); *Llawysgrif Richard Morris o Gerddi* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1931); *Canu Rhydd Cynnar* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1932); (gyda Rhiannon Morris-Jones) *Llawysgrif Hendregadredd* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1933); *Elfennau Barddoniaeth* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1935); *Pedair Cainc y Mabinogi: Chwedlau Cymraeg Canol wedi eu Diweddarau* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1937). Gweler hefyd ysgrif Thomas Jones, 'Yr Ysgolhaig', yn Idris Foster (gol.), *Cyfrol Deyrnged Syr Thomas Parry-Williams* (Gwasg Gomer: Llandysul, 1967), tt. 93–4. Dywed Jones am Lawysgrif Hendregadredd iddi fod ar goll am gyfnod hir 'nes ei darganfod ym mis Tachwedd 1910 mewn hen wardrop yn Hendregadredd, ger Porthmadog'.
- ⁶³ AGPC, Annual Report 1936.
- ⁶⁴ AGPC, Cofnodion y Bwrdd, 6 Hydref 1936.
- ⁶⁵ S. Gwilym Davies, *Byd Busnes* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1938).
- ⁶⁶ *Y Llenor*, XVII/4 (Gaef 1938), 252.
- ⁶⁷ Rhiannon Davies a Mansel Davies, *Hanes Datblygiad Gwyddoniaeth* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1948).

- ⁶⁸ Mansel Davies, *A Scientist Looks at Buddhism* (Lewes: The Book Guild, 1990).
- ⁶⁹ *Lleufer*, VI/2 (Haf 1950), 98–9.
- ⁷⁰ *Lleufer*, 99.
- ⁷¹ Gwilym Owen, *Mawr a Bach: sef Sêr ac Electronau* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1936). Datblygodd y gyfrol hon o gyfres o sgysgiau radio a gyflwynodd yr awdur.
- ⁷² AGPC, Annual Report 1937.
- ⁷³ Richard Owen Davies, *Elfennau Cemeg* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1937).
- ⁷⁴ Davies, *Elfennau Cemeg*, t. v.
- ⁷⁵ Owen, *Mawr a Bach*, t. 7.
- ⁷⁶ Owen, *Mawr a Bach*, t. 43.
- ⁷⁷ Owen, *Mawr a Bach*, t. 10.
- ⁷⁸ *Efrydiau Athronyddol*, I (1938). Roedd athronwyr ac ysgolheigion blaenllaw fel J. R. Jones, Hywel D. Lewis, David Phillips ac Idwal Jones ymhlith yr awduron a gafodd lwyfan i'w gwaith yn y Gymraeg trwy'r cyfnodolyn newydd.
- ⁷⁹ J. J. Jones, 'Y Buddha a phroblem y drwg', *Efrydiau Athronyddol*, IV (1941), 45–62; a 'Dharma a Logos', *Efrydiau Athronyddol*, IX (1946), 3–18.
- ⁸⁰ AGPC, 'Memorandum on the question of issuing a series of cheap reprints of Welsh classics', Cofnodion y Bwrdd, 13 Ebrill 1937.
- ⁸¹ R. T. Jenkins, *Hanes Cymru yn y Ddeunawfed Ganrif* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1928); *Hanes Cymru yn y Bedwaredd Ganrif ar Bymtheg: Y Gyfrol Gyntaf (1789–1843)* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1933).
- ⁸² AGPC, Cofnodion y Bwrdd, 5 Mehefin 1929.
- ⁸³ R. T. Jenkins, *Edrych yn Ôl* (Llundain: Clwb Llyfrau Cymraeg Llundain, 1968), t. 262.
- ⁸⁴ Jenkins, *Edrych yn Ôl*, t. 262. Datgelir hefyd mai awdur arall a ddewiswyd i lunio cyfrol ar y ddeunawfed ganrif yn wreiddiol, sef J. R. Gabriel, hanesydd o Gaerllion, gyda Jenkins i ganolbwyntio ar y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Wedi iddynt flino aros am lawysgrif, gofynnodd y pwyllgor a oedd yn gyfrifol am y gyfres newydd iddo ysgwyddo'r baich yn lle Gabriel er na 'wyddwn *ddim* am y ddeunawfed'. Bu'r straen o drwytho'i hun ar frys yn y cyfnod er mwyn ysgrifennu'r gyfrol ychwanegol yn ddigon i'w arwain yn agos at '*nervous breakdown*' pan gyflwynodd y gwaith i Jenkin James, ysgrifennydd Bwrdd y Wasg ar y pryd, 'Gweithias yn galed – yn *rhy* galed, nes fy ngyrru fy hunan i lesgedd mawr; ac yn Eisteddfod Treorci yn Awst 1928 cwmpais yn gelain ar yr heol!', tt. 262–3.
- ⁸⁵ *Y Traethodydd*, XVII (Ionawr 1929), 188.

- ⁸⁶ Gweler Hazel Walford Davies, O. M.: *Cofiant Syr Owen Morgan Edwards* (Llandysul: Gwasg Gomer, 2020) ar gyfer hanes cychwyn 'Cyfres y Fil' ym 1902, tt. 543–5.
- ⁸⁷ AGPC, Cofnodion y Bwrdd, 13 Ebrill 1937.
- ⁸⁸ AGPC, 13 Ebrill 1937.
- ⁸⁹ AGPC, 13 Ebrill 1937.
- ⁹⁰ AGPC, Cofnodion y Bwrdd, 25 Tachwedd 1938.
- ⁹¹ AGPC, Annual Report 1950.
- ⁹² *Y Llenor*, XXVII/4 (Gwanwyn 1948), 195.
- ⁹³ AGPC, Annual Report 1950.
- ⁹⁴ AGPC, Cofnodion y Bwrdd, 1 Mehefin 1927.
- ⁹⁵ R. I. Aaron, *Hanes Athroniaeth: o Descartes i Hegel* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1932).
- ⁹⁶ Iorwerth C. Peate, *Cymru a'i Phobl* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1931).
- ⁹⁷ Copi personol J. R. Jones o Aaron, *Hanes Athroniaeth*, t. 14. Ceir llofnod yr athronydd ifanc o Bwllheli ym mlaen y llyfr wedi'i ddyddio Mehefin 1933.
- ⁹⁸ AGPC, Cofnodion y Bwrdd, 30 Ionawr 1928.
- ⁹⁹ *Y Llenor*, X/2 (Gwanwyn 1931), 126–8.
- ¹⁰⁰ AGPC, Annual Report 1933.
- ¹⁰¹ AGPC, Cofnodion y Bwrdd, 30 Ionawr 1928.
- ¹⁰² Stephen J. Williams, *Ffordd y Brawd Odrig: o Lawysgrif Llanstephan 2* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1929), ac *Ystoria de Carolo Magno: o Lyfr Coch Hergest* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1930).
- ¹⁰³ AGPC, Cofnodion y Bwrdd, 12 Chwefror 1931.
- ¹⁰⁴ Cyhoeddwyd yr *Home University Library of Modern Knowledge* gan gwmni Williams and Norgate yn Llundain o 1911 ymlaen.
- ¹⁰⁵ AGPC, Annual Report 1934.
- ¹⁰⁶ AGPC, Annual Report 1939.
- ¹⁰⁷ AGPC, Annual Report 1938.
- ¹⁰⁸ AGPC, Annual Report 1938.
- ¹⁰⁹ AGPC, Annual Report 1950.
- ¹¹⁰ AGPC, Annual Report 1946.
- ¹¹¹ H. H. Rowley, *Submission in Suffering: A Comparative Study of Eastern Thought* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1942). Ceir adolygiad canmoliaethus o'r llyfryn hwn yn *Y Traethodydd*, XCVIII (Ebrill 1943), 89–90.
- ¹¹² Ronald Grimsley, *Existentialist Thought* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1955), a *Jean-Jacques Rousseau: A Study in Self-Awareness* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1961).
- ¹¹³ *Detholiad o Lyfrau* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1953). L. Twiston-Davies a H. J. Lloyd-Johnes, *Welsh Furniture: An Introduction* (Caerdydd:

- Gwasg Prifysgol Cymru, 1950); Cecil Price, *The English Theatre in Wales* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1948); R. D. Griffith, *Hanes Canu Cynulleidfaoel Cymru* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1948); Hywel D. Lewis, *Gwybod am Dduw* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1952).
- ¹¹⁴ AGPC, Cofnodion y Bwrdd, 5 Mehefin 1929.
- ¹¹⁵ AGPC, Annual Report 1923.
- ¹¹⁶ AGPC, Annual Report 1936.
- ¹¹⁷ AGPC, Llythyr Gwenallt at Elwyn Davies, 6 Mai 1954. D. Gwenallt Jones, *Y Storm: Dwy Gerdd gan Islwyn* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1954). Rhai blynyddoedd ynghynt, cyhoeddodd y Wasg *Blodeugerdd o'r Ddeunawfed Ganrif* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1936), a adargraffwyd sawl tro.
- ¹¹⁸ AGPC, Ffeil Cyfres y Werin, Llythyr Saunders Lewis at Ifor L. Evans, 22 Tachwedd 1949.
- ¹¹⁹ AGPC, Ffeil Cyfres y Werin, Llythyr Emrys Evans at Ifor L. Evans, 16 Tachwedd 1949.
- ¹²⁰ D. Emrys Evans, *Y Wladwriaeth* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1956). Cyn hynny cyhoeddodd y Wasg ei gyfieithiadau o *Amddiffyniad Socrates* (1936), *Phaedon* (1938), *Ewthuffron* (1943), *Criton* (1943) a *Gorgias* (1946).
- ¹²¹ AGPC, Ffeil Cyfres y Werin, Llythyr W. J. Gruffydd at Ifor L. Evans, 16 Tachwedd 1949.
- ¹²² Fe'i olynwyd fel cadeirydd Bwrdd y Wasg ym 1958 gan Yr Athro Thomas Parry, awdur dwy o'r cyfrolau pwysicaf i'r Wasg gyhoeddi yn ystod y 1940au a'r 1950au cynnar, sef ei gampwaith *Hanes Llenyddiaeth Gymraeg Hyd 1900* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1944) a'i gasgliad cynhwysfawr, *Gwaith Dafydd ap Gwilym* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1952). Nodwyd yn adroddiad blynyddol y Bwrdd y flwyddyn honno mai dyma'r 'first complete edition of Dafydd ap Gwilym's work to be published for over 150 years, and the first in which the principles of modern literary criticism have been applied'. Bu yn y gadair nes 1969. Goronwy Daniel oedd y cadeirydd nesaf, rhwng 1969 a 1979.
- ¹²³ Parry-Williams, *Bwrdd Gwasg Prifysgol Cymru*, t. 15.

Mae'r dudalen hon yn fwriadol wag

Atodiad

Cronoleg o ddyddiadau a chyhoeddiadau allweddol yn hanes Gwasg Prifysgol Cymru

- 1918 Comisiwn Haldane yn argymhell sefydlu gwasg prifysgol
ar gyfer Cymru
- 1919 Sefydlu Bwrdd Gwybodau Celtaidd, Prifysgol Cymru
- 1922 Bwrdd y Wasg yn cyfarfod am y tro cyntaf yn Llundain
ar y 6ed o Ionawr
- 1923 Thomas Roberts ac Ifor Williams, *The Poetical Works of
Dafydd Nanmor*
- 1926 Kathleen Freeman, *The Works and Life of Solon*
T. Gwynn Jones, *Gwaith Tudur Aled*
- 1928 R. T. Jenkins, *Hanes Cymru yn y Ddeunawfed Ganrif* (y llyfr
cyntaf yng nghyfres 'Y Brifysgol a'r Werin')
John Morris-Jones, *Orgraff yr Iaith Gymraeg*
- 1930 Ifor Williams, *Pedeir Keinc y Mabinogi*
- 1931 W. J. Gruffydd, *Y Flodeugerdd Gymraeg*
- 1932 R. I. Aaron, *Hanes Athroniaeth: o Descartes i Hegel*
Saunders Lewis, *Braslun o Hanes Llenyddiaeth Gymraeg*
T. H. Parry-Williams, *Canu Rhydd Cynnar*
- 1933 T. H. Parry-Williams a Rhiannon Morris-Jones (goln),
Llawysgrif Hendregadredd

Gwasg Prifysgol Cymru

- 1935 Ifor Williams, *Canu Llywarch Hen* (dilynwyd gan *Canu Aneirin* (1938) a *Canu Taliesin* (1960))
- 1936 D. Gwenallt Jones, *Blodeugerdd o'r Ddeunawfed Ganrif*
- 1938 Cychwyn *Efrydiau Athronyddol*, y cyfnodolyn cyntaf ar athroniaeth yn y Gymraeg.
- 1942 Henry Lewis (gol.), *Brut Dingestow*
- 1944 Thomas Parry, *Hanes Llenyddiaeth Gymraeg Hyd 1900*
- 1950 Cyhoeddi rhifyn cyntaf y cyfnodolyn *Llên Cymru*
Alwyn D. Rees, *Life in a Welsh Countryside*
Rhan gyntaf *Geiriadur Prifysgol Cymru* yn cael ei chyhoeddi
- 1952 Thomas Parry, *Gwaith Dafydd ap Gwilym*

Er 1953, mae Gwasg Prifysgol Cymru wedi parhau i gyhoeddi amrywiaeth o lyfrau a chyfnodolion ym maes astudiaethau Cymreig a Cheltaidd, ynghyd ag ystod o feysydd eraill yn y dyniaethau a'r gwyddorau cymdeithasol, gan ehangu ei awduron a darllenwyr ledled y byd. Yn ystod ei chanmlwyddiant, lledaenodd y Wasg ei rhaglen gyhoeddi i'r byd addysg, ac ymunodd â'r farchnad fyd-eang ar gyfer ffuglen greadigol trwy greu gwasgnod newydd Calon. Ceir rhestr gyflawn o'r cyhoeddiadau diweddaraf ar wefan Gwasg Prifysgol Cymru.

Mynegai

- Aaron, R. I. 12, 22, 26, 27, 38, 41
Adran Efrydiau Allanol Prifysgol
Cymru 3, 20–1, 26
Adroddiad Comisiwn Haldane
2–4, 41
Aled, Tudur 6, 16, 41
Amgueddfa Genedlaethol Cymru
2
Amwythig 13
ap Iwan, Emrys 14
Archaeologia Cambrensis 6
Ashton, Glyn 25
Astudiaethau Celtaidd 2, 4, 29
- Ballinger, John 4, 11
Bebb, Ambrose 17
Berdyaev, Nicolas 22
Bergson, Henri 14
Bosse-Griffiths, Kate 35
Bridges, Robert 8
Bwdhaeth 20, 22
Bwrdd Gwasg Prifysgol Cymru 1,
2, 4–6, 8, 9, 10, 12–13, 14–15,
16, 18, 19, 23, 24–6, 28, 29–30,
31–2, 33, 39, 41
Bwrdd Gwybodau Celtaidd
Prifysgol Cymru 2, 4, 8, 17,
28, 41
Byd Busnes (S. Gwilly Davies) 20
- Canu Aneirin* (Ifor Williams) 6,
42
Canu Llywarch Hen (Ifor Williams)
6, 42
- Canu Taliesin* (Ifor Williams) 6, 42
Clarendon Press 5
Clwb Llyfrau Cymreig, Y 13, 35
Cofrestrfa Prifysgol Cymru,
Caerdydd 4, 27, 33
Coleg y Bala 26
Coleg Prifysgol Cymru Abertawe
4
Coleg Prifysgol Cymru
Aberystwyth 4, 5, 12, 13, 16,
21, 22
Coleg Prifysgol Cymru Bangor 8,
26, 30, 31, 34
Coleg Prifysgol Cymru Caerdydd
7
Coleg Somerville, Rhydychen
4
Cyfreithiau Hywel Dda (Stephen J.
Williams a J. Enoch Powell)
15
Cymdeithas Addysg y Gweithwyr
3, 20–1
Cymdeithas Alawon Gwerin
Cymru 5
Cyfres y Brifysgol a'r Werin 11,
16, 20–1, 23, 24, 25–7, 41
Cyfres y Fil 23–4, 38
Cyfres y Werin 11, 31–2, 35,
39
Cyfres Llyfrau Deunaw 25
Cymru a'i Phobl (Iorwerth C.
Peate) 26
- Dafydd Nanmor 6

Gwasg Prifysgol Cymru

- Daniel, Goronwy 39
Datblygiad yr Iaith Gymraeg (Henry Lewis) 27
 Davies, Alun Talfan 13
 Davies, Aneirin Talfan 13
 Davies, Cassie 17
 Davies, Elwyn 32, 39
 Davies, George M. Ll. 35
 Davies, J. H. 4
 Davies, Mansel 20–1
 Davies, Rhiannon 20–1
 Davies, Richard Owen 21
 Davies, S. Gwilly 20
 Dent, J. M. 24
 Descartes, René 26
 Dirfodaeth 30
 Dodd, A. H. 26
Drych y Prif Oeoesdd 2, 28
 (Theophilus Evans)
- Early Greek Elegy* (T. Hudson-Williams) 8
 Edwards, D. Miall 2
 Edwards, O. M. 4, 23, 38
Efrydiau Athronyddol 22, 37, 42
 Eisteddfod Genedlaethol Cymru
 5, 10, 37
Elfennau Barddoniaeth (T. H. Parry-Williams) 19
Elfennau Cemeg (Richard Owen Davies) 21
Elfennau Gramadeg Cymraeg
 (Stephen J. Williams) 15
 Eliot, T. S. 15
 Ellis, I. Elfyn 20
 Evans, Christmas 25
 Evans, Emrys 14, 31–2, 39
 Evans, Ifor L. 11–14, 30
 Evans, Nesta 8, 34
 Evans, Theophilus 2
- Flwyddyn yng Nghymru, Y* 14
 Freeman, Kathleen 7–8, 41
 Foulkes, Isaac 23
 Foyle's 2
- Gabriel, J. R. 37
Geirfa Barddoniaeth Gynnar Gymraeg (J. Lloyd-Jones) 7
 Geiriadur Prifysgol Cymru 17, 42
Gramadegau'r Penceirddiaid (G. J. Williams a E. J. Jones) 19
 Grimsley, Ronald 30
 Gruffydd, Elwyn 11
 Gruffydd, W. J. 4, 7, 8, 12, 15, 18, 22, 29, 32, 36, 41
 Guest, Charlotte 5
 Gwasg Aberystwyth 13
 Gwasg y Brython 2
 Gwasg Gee 13, 35
 Gwasg Gomer 5
 Gwasg Prifysgol Rhydychen 11
Gweledigaethau'r Bardd Cwsc (Ellis Wynne) 28
 Gŵyl Lyfrau Cymru 11
- Hanes Athroniaeth: o Descartes i Hegel* (R. I. Aaron) 26, 38, 41
Hanes Cristionogaeth (Isaac Thomas) 21
Hanes Cymru yn y Ddeunawfed Ganrif (R. T. Jenkins) 11, 23, 26, 37
Hanes Datblygiad Gwyddoniaeth (Rhiannon Davies a Mansel Davies) 20
Home University Library of Modern Knowledge 9, 29, 38
 Hudson-Williams, T. 8
 Hughes a'i Fab 2, 5, 12, 23
 Hughes, Garfield 25
Hwnt ac Yma 14
- Islwyn (William Thomas) 25, 31
- James, Jenkin 4, 32, 37
 Jarvis & Foster 2
 Jenkins, R. T. 11–12, 14, 22–5, 26, 27, 37, 41
 Jones, Ben 10–11, 31
 Jones, D. Gwenallt 31, 39, 42

- Jones, Evan J. 18
 Jones, Gwenan 16
 Jones, Henry 4
 Jones, Idwal 16, 37
 Jones, J. J. 22
 Jones, J. R. 26, 37
 Jones, R. Brinley 32
 Jones, T. Gwynn 6, 16, 41
 Joyce, Gilbert 11, 29
 Joyce, James 15
- Kenyon, Lloyd (Y 4ydd Arglwydd Kenyon) 4, 33
- Lewis, E. A. 13
 Lewis, Henry 7, 8, 9, 12, 17, 27, 42
 Lewis, Hywel D. 30
 Lewis, Saunders 2, 18, 31, 36
 Lloyd, D. Myrddin 25
 Lloyd, D. Tecwyn 13, 35
 Lloyd-Jones, J. 7, 34
- Llais Rhyddid* 14
 Llawysgrif Hendregadredd 19, 36, 41
Llenor, Y 9, 15, 20
Lleufer 20–1
Llyfr y Tri Aderyn (Morgan Llwyd) 28
 Llyfrau'r Dryw 13, 35
 Llyfrau Pawb 35
 Llyfrgell Genedlaethol Cymru 2, 3, 7
 Llwyd, Morgan 2, 23
- MacMillan and Co. 5
 Marcel, Gabriel 30
Mawr a Bach: sef Sêr ac Electronau (Gwilym Owen) 21, 37
 Milford, Humphrey 5
 Mill, John Stuart 14
 Moderniaeth 15–16, 35
 Modernrwydd 15
 Morgan, Elena Puw 13
 Morgan, T. J. 17, 20
- Morganwg, Iolo (Edward Williams) 14, 19, 36
 Morris-Jones, John 4–5, 8, 17
 Morris-Jones, Rhiannon 19, 36, 41
 Mudiad yr Ysgolion Sir 5
- Orgraff yr Iaith Gymraeg* (John Morris-Jones) 17
 Owen, Gwilym 21, 37
- Parry, Thomas 7, 25, 39, 42
 Parry-Williams, T. H. 4, 12–13, 16, 19–20, 21–2, 32, 36, 41
Patrum y Gwir Gristion 2
 Peate, Iorwerth C. 14, 26
Pedeir Keinc y Mabinogi (Ifor Williams) 17
 Pelican Books 25
 Penguin Books 9, 25
 Penrose, Emily 4
 Phillips, David 26, 37
 Plaid Genedlaethol Cymru 18, 36
 Platon 14, 32
Poetical Works of Dafydd Nanmor, The (Thomas Roberts ac Ifor Williams) 6, 34, 41
 Powell, Enoch 15
 Powell, S. M. 18
 Prichard, Caradog 35
 Prifysgol Tokyo 11
- Rees, Alwyn D. 35, 42
 Richards, Melville 17
 Robert, Gruffydd 19
 Roberts, Samuel (S.R.) 14
 Roberts, Thomas 6, 34
 Rousseau, Jean-Jacques 30
 Rowley, H. H. 30
- Sartre, Jean-Paul 30
 Seicdreiddiad 16
 Sibly, T. Franklin 4, 29
Spirit of Man, The (Robert Bridges) 8
 Spurrell 23

Gwasg Prifysgol Cymru

- Submission in Suffering* (H. H. Rowley) 30
- Thomas, David 21
- Thomas, Isaac, 21
- Thoreau, Henry David 14
- Traethodydd, Y* 15, 17, 23, 38
- Treigladau a'u Cystrawen, Y* (T. J. Morgan) 17
- Trow, A. H. 4
- Ulysees* (James Joyce) 15
- Urdd Gobaith Cymru 10
- Urdd Graddedigion Prifysgol Cymru 2, 4
- Voltaire 14
- Wasteland, The* (T. S. Eliot) 15
- Williams, Elizabeth 18
- Williams, G. J. (Griffith John), 12, 17–18, 27, 33, 36
- Williams, Ifor 6, 12, 33, 34, 42
- Williams Pantycelyn* (Saunders Lewis) 2
- Williams, Stephen J. 2–3, 15, 28
- Wittgenstein, Ludwig 35
- Work and Life of Solon, The* (Kathleen Freeman) 7–8, 41
- Wynne, Ellis 23
- Yny lhygyr hwnn* 2
- Ysgol Sir Tregaron 17

THE UNIVERSITY OF WALES PRESS

THE FOUNDING YEARS
(1922-1953)

LLION WIGLEY



ISBN 978-1-83772-017-0



9 781837 720170 >

The University of Wales Press

This page intentionally left blank

*The University of Wales Press
The Founding Years (1922–1953)*

Llion Wigley



University of Wales Press
2022

© Llion Wigley, 2022

All rights reserved. No part of this book may be reproduced in any material form (including photocopying or storing it in any medium by electronic means and whether or not transiently or incidentally to some other use of this publication) without the written permission of the copyright owner except in accordance with the provisions of the Copyright, Designs and Patents Act 1988. Applications for the copyright owner's written permission to reproduce any part of this publication should be addressed to the University of Wales Press, University Registry, King Edward VII Avenue, Cardiff CF10 3NS

www.uwp.co.uk

A catalogue record for this book is available from the British Library.

ISBN 978-1-83772-017-0

e-ISBN 978-1-83772-018-7

The right of Llion Wigley to be identified as author of this work has been asserted in accordance with sections 77 and 79 of the Copyright, Designs and Patents Act 1988.

Typeset by Eira Fenn Gaunt, Pentyrch, Wales

Printed by CPI Antony Rowe, Melksham, United Kingdom

*For Mum, Eryllt and Gwennlian, and in loving
memory of Christine Fieodorczuk (1960–2021)*

This page intentionally left blank

Foreword by the Vice-Chancellor

I am delighted to introduce this account of the early decades of University of Wales Press to commemorate the centenary of such a vital institution for our nation.

The Press was founded in 1922 by the University of Wales to create a high quality vehicle for critical research from and about Wales, that we now term Wales Studies, in our two national languages, Welsh and English. Prior to the establishment of the Press, this opportunity was not widely available to Welsh language researchers in particular.

The Press's founders created this national asset to serve Wales, and to disseminate research throughout the nation and across the world. Under the leadership of its present director, Natalie Williams, and with support from the University of Wales Trinity Saint David, the Press continues to deliver on its founding principles today.

I am grateful to Dr Llion Wigley, Senior Commissioning Editor at the Press, for his painstaking research in the archives to capture this record of the the founding years, and of the political and educational factors that contributed to its early development.

I would like to thank and congratulate current and former colleagues, authors and all who have contributed to the globally respected academic press that we see today. As we mark the centenary year, acknowledging the impact that the Press has made on Wales and Welsh research in its first one hundred years, we look forward with great anticipation to what can be achieved over the next century and beyond.

Professor Medwin Hughes, DL
Vice-Chancellor of the University of Wales Trinity Saint David

This page intentionally left blank

The University of Wales Press: The Founding Years (1922–1953)

